

Hafren Dyfrdwy

Datganiad ar Gyfeiriad
Strategol hyd at 2050

Ein Datganiad ar Gyfeiriad Strategol

**RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP**

**HAFREN
DYFRDWY**

severn dee

Welcome from James, our Managing Director

Croeso gan James, ein Rheolwr Gyfarwyddwr

Rwyf wrth fy modd o fod yn gallu cyflwyno'n Datganiad ar Gyfeiriad Strategol cyntaf erioed ar gyfer Hafren Dyfrdwy, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2050. Rydym yn gwmni lleol balch sy'n gwasanaethu dros 100,000 o aelwydydd a busnesau ledled ein cymunedau yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Rydym yn wirioneddol falch o fod yn geidwad ased Cymreig mor werthfawr â rhywfaint o ddŵr y wlad.

Gwyddom fod cael cyfeiriad strategol pendant yn allweddol wrth inni geisio cael llwybr mwy cynaliadwy i'n cwmni ac wrth inni gynllunio sut i ymateb orau i gyfleoedd a heriau'r dyfodol a ddaw yn y deg mlynedd ar hugain nesaf. Bydd hyn yn caniatáu inni barhau i gynorthwyo'n cwsmeriaid lleol cyfredol a'r dyfodol yn y ffordd orau.

Lluniwyd ein cyfeiriad strategol gan nifer o ffactorau allweddol:

- Cynyddu'n cyfraniad tuag at ein cwsmeriaid, busnesau a chymunedau lleol;
- Cydbwyso'r angen am fuddsoddiad a fforddiadwyedd ein biliau;
- Gwneud ein rhan mewn lliniaru ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur;
- Ein ffocws ar arwain o ran diogelu a gwella'n hamgylchedd cyfoethog, naturiol;
- Cyflenwi dros "Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol" Cymru, a chynllunio yng nghyd-destun polisi a chanllawiau'r llywodraeth; a
- Gweithio'n gydweithredol â rheolyddion, y llywodraeth, cyrff a chwmnïau lleol yn ein sector yng Nghymru.

Amlinellwn ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn y ddogfen hon, nid yn unig fel ein bod yn gallu bod yn gwmni dŵr a dŵr gwastraff blaenllaw, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ond hefyd fel ein bod yn gallu gwneud gwahaniaeth amgylcheddol a chymdeithasol ystyrlon a chadarnhaol, nid yn unig i'n rhanbarth lleol, ond hefyd i Gymru drwyddi draw.



James Jesic
Rheolwr Gyfarwyddwr

Rheolwr Gyfarwyddwr



1. Rhagymadrodd

05 Diben a Gwerthoedd

06 Amdanom

07 Yr hyn a wnawn

08 Cynllunio hirdymor

09 Ein rhanddeiliaid

2. Tueddiadau allweddol

13 Y tueddiadau allweddol dros y 30 mlynedd nesaf

3. Heriau

16 Yr heriau mwyaf i Hafren Dyfrdwy

4. Blaenoriaethau'r dyfodol

23 Ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Ein syniadau ynglŷn â sut y byddwn yn::

26 Gwarantu cyflenwadau dŵr y dyfodol

30 Sicrhau y defnyddir dŵr yn ddoeth

33 Cyflenwi gwasanaeth fforddiadwy, o ansawdd uchel

36 Lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd

40 Diogelu a gwella'n hamgylchedd

44 Gwneud gwahaniaeth cymdeithasol cadarnhaol

48 Cynnal gweithle diogel, cynhwysol a theg

Datblygu'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Mae ein Datganiad ar Gyfeiriad Strategol yn amlinellu'n blaenoriaethau hirdymor yn seiliedig ar ein barn am dueddiadau'r dyfodol a'r meysydd sydd o bwysigrwydd i'n holl randdeiliaid. Mae cyflenwi'n blaenoriaethau'n gofyn am safbwynt hirdymor, mwy o bwyslais ar arloesi a chydweithredu, ac amgylchedd rheoleiddio blaengar.

Tueddiadau allweddol

- Natur demograffig newidiol ein poblogaeth.
- Disgwyliadau ac agweddau esblygol cwsmeriaid.
- Newidiadau economaidd, strwythurol a rheoliadol.
- Pryderon cynyddol am ddifrod i'r amgylchedd.
- Mwy o effeithiau a phrofiadau o ran newid yn yr hinsawdd.
- Mabwysiadu datrysiadau datblygol i ddatgarboneiddio.

Heriau mwyaf

- Bydd newid demograffig yn dylanwadu ar y galw yn y dyfodol am ddŵr.
- Bydd newid yn yr hinsawdd yn lleihau argaeledd dŵr ac yn gwaethygu galw brig.
- Bydd tywydd mwy eithafol yn cynyddu'r perygl o lifogydd.
- Bydd y cysylltiad rhwng amgylchedd iach a newid yn yr hinsawdd yn cymell newid mewn agweddau.
- Bydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ymyriadau polisi.
- Bydd y buddsoddiad gofynnol yn effeithio ar filiau cwsmeriaid ac yn effeithio ar fforddiadwydedd i rai pobl.

Blaenoriaethau'r dyfodol

- Gwarantu cyflenwadau dŵr y dyfodol.
- Sicrhau y defnyddir dŵr yn ddoethach.
- Cyflenwi gwasanaeth fforddiadwy, o ansawdd uchel.
- Lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd.
- Diogelu a gwella'n hamgylchedd.
- Gwneud gwahaniaeth cymdeithasol cadarnhaol.
- Cynnal gweithlu diogel, cynhwysol a theg.

1. Rhagymadrodd - Ein Diben a'n Gwerthoedd



Amdanom

Un o'r un ar ddeg
o gwmnïau dŵr a
dŵr gwastraff yng
Nghymru a Lloegr.

Cyflenwi tua **61
miliwn** litr o ddŵr
yfed glân bob dydd.

Bil cyfartalog o lai na
£1 y dydd, yr isaf yng
Nghymru (a Lloegr).

Gwasanaethu dros
100,000 o aelwydydd
a busnesau.

Cael gwared â
thros **18 miliwn litr**
o garthion a dŵr
gwastraff bob dydd.

Mae ein rhanbarth
yn cynnwys
Llyn Efyrrwy,
lle'r amcanwn at
fod yn arweinydd
mewn rheoli tir a
bioamrywiaeth.

Cynnal dros **3,000
cilometr** o brif bibelli
dŵr a charthffosydd.

Gwella
bioamrywiaeth
drwy fentrau rheoli
**dalgylchoedd
newydd.**

Cyflogi dros **130** o
weithwyr medrus ac
ymroddedig.


Lansiwyd Hafren Dyfrdwy yn 2018,
ac mae'n gwmni lleol a leolir yng
Nghanolbarth a Gogledd Cymru.

Mae ein ffocws parhaus ar gyflenwi ar
gyfer ein cwsmeriaid yng Nghymru, yn awr
ac am genedlaethau i ddod, fel ei gilydd.




Yr hyn a wnawn

O ddarparu dŵr glân bob tro mae ein cwsmeriaid yn agor y tap i'w ddychwelyd i afonydd hyd yn oed yn lanach nag yr oedd pan wnaethom ei gymryd. **Rydym yn falch o ofalu am un o hanfodion bywyd.**



Sut y cynlluniwn ar gyfer y cyfnod hir


Cydnabyddwn fod y dyfodol yn ansicr ac na allwn ddarogan yn hollol gywir beth fydd yn digwydd. Felly, defnyddiwn broses gynllunio strategol i ddeall y risgiau y gallwn eu hwynebu ac i ganfod yr atebion mwyaf priodol.



Mae ein Datganiad at Gyfeiriad Strategol yn amlinellu'n huchelgais dros y cyfnod hir. Defnyddir hyn i helpu i gynorthwyo i ddatblygu'n gynlluniau adolygu prisiau yn y dyfodol, ein rôl yn y Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol a'n cynlluniau adnoddau dŵr a dŵr gwastraff dros y cyfnod hwy.

Cydnabod anghenion ein holl randdeiliaid

Wrth ffurfio'n cyfeiriad strategol, rydym wedi ceisio adlewyrchu blaenoriaethau'n holl randdeiliaid.



Mae ar ein cwsmeriaid eisiau...

- Dŵr yfed diogel ac sy'n gyson o ansawdd uchel sy'n cydymffurfio â holl safonau perthnasol.
- Cyflenwadau dibynadwy, gan gyfyngu hyd yr eithaf ar doriadau a digwyddiadau pwysedd isel.
- Biliau fforddiadwy a theg.
- Cymorth pan fo arnynt ei angen – mewn argyfyngau, ar ôl digwyddiadau neu pan fo rhywun mewn caledi.
- I ni leihau digwyddiadau o lifogydd a llygredd o garthffosydd.
- I ni fod yn gyfleus ac yn hawdd rhyngweithio â nhw.
- Profiad o ansawdd uchel i gwsmeriaid, y gellir ei gymharu â sefydliadau adwerthu blaenllaw.
- Cymorth i ddeall sut maent yn defnyddio dŵr.
- I ni fod yn ddelfryd ymddwyn gweithredol ac yn arweinydd o ran gwella'n hamgylchedd naturiol lleol cyfoethog.

Mae ar ein cymunedau eisiau inni...

- Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, megis afonydd a nentydd.
- Gweithio ag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill i ddatrys pryderon cymunedau, megis perygl o lifogydd.
- Creu adnoddau cymunedol newydd drwy gefnogi prosiectau a ysbrydolir ac a arweinir yn lleol.
- Cynorthwyo'r rheiny mewn cymdeithas sy'n agored i niwed, yn ddifreintiedig, neu sy'n anghenus.
- Dod â swyddi a chyfleoedd hyfforddi, a chynorthwyo symudedd cymdeithasol.
- Adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn ein gweithlu drwy wella amrywiaeth.

Cydnabod anghenion ein holl randdeiliaid

Mae ar ein gweithwyr eisiau...

- Rolau ystyrlon sy'n darparu boddhad gwaith ac sy'n cynnig ymdeimlad o ddiben.
- Man teg, cynhwysol a diogel i weithio.
- Gweithle bywiog a diwylliant sy'n perfformio'n raenus.
- Cyfraniad pawb i'w gydnabod a'i wobrwyo'n deg.
- Sicrwydd swydd.
- Buddsoddi mewn sgiliau a gwybodaeth, a gyrfa hirdymor.
- Cyfleoedd i ddatblygu.
- Cyfleoedd i roi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae ar ein partneriaid eisiau...

- Sicrwydd contract.
- Telerau masnachol teg, sy'n cydbwyso risg ac adenillion rhwng yr holl bartïon.
- Amcanion cyflawni a mesurau perfformio eglur.
- Dyrannu a rheoli gwaith effeithlon.
- Talu'n amserol.
- Cyfleoedd i gydweithio i greu effeithlonrwydd neu i ganfod cyfleoedd busnes newydd.
- Eglurder am gynlluniau'r dyfodol.

Mae ar ein rheolyddion eisiau...

- Cydymffurfio ag amodau trwyddedau, safonau, rhwymedigaethau ac ymrwymiaidau perfformiad.
- Cadernid hirdymor cyflenwad dŵr a systemau dŵr gwastraff.
- Gwelliannau i ddeilliannau cwsmeriaid drwy effeithlonrwydd, gwell dirnadaeth o gwsmeriaid ac arloesi.
- Canolbwyntio mwy ar gydweithredu a phartneriaethau rhwng rhanddeiliaid niferus.
- Y ni i ddarparu mwy o werth cyhoeddus, gan gyflenwi mwy i gwsmeriaid, i gymdeithas ac i'r amgylchedd.
- Gwelliannau i ganlyniadau i gwsmeriaid drwy effeithlonrwydd, gwell dirnadaeth gan gwsmeriaid ac arloesi.
- Ninnau i barhau i gynnig gwasanaeth fforddiadwy i'n holl gwsmeriaid, yn ogystal â chynorthwyo'r bobl fwyaf anghenus.

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau...

- Sector dŵr cadarn sy'n gallu ymateb i heriau'r dyfodol.
- Canolbwyntio mwy ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd.
- Amddiffyniad a chymorth i gwsmeriaid sydd ei angen.
- Mwy o gydweithredu ledled cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru.
- Gweithio'n agos â'r Awdurdodau Lleol yn ein rhanbarth i gymell y canlyniadau gorau.

Mae gwella lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn graidd i'n cyfeiriad strategol

Rydym yn angerddol ynglŷn â sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol yn ein rhanbarth, ac o fewn Cymru drwyddi draw. Mae gwneud ein rhan i gynorthwyo â'r nodau lles yn ganolog i'n strategaeth.

Cydnabyddwn fod yna, o ystyried ein rôl yn yr Economi Sylfaenol yng Nghymru, gyfrifoldeb arnom wrth gyflenwi gyferbyn â'r saith nod Lles a gynhwysir o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried effaith fwy hirdymor gweithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol.

Wrth ddiffinio'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, rydym wedi ystyried y goblygiadau o ran pob un o'r pileri lles hyn.

Llewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (yn cynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Mae'n economi â phoblogaeth wedi'i haddysgu'n dda, sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am swyddi.

Cadarn

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cynnal cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).



Iachach

Cymdeithas lle y gwellir lles corfforol a lles meddwl pobl a lle y caiff dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd y dyfodol eu deall.

Mwy Cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu'u potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cyfrifol yn Fyd-eang

Cenedl sydd, pan fo'n gwneud unrhyw beth i wella lles economaidd a diwylliannol Cymru, yn ystyried p'un a all gwneud y fath beth wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at les byd-eang.

Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon ac adloniant.

Cymunedau Cydlynus

Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel ac sydd wedi'u cysylltu'n dda.

Mae ein blaenoriaethau yn ategu'r fframwaith rheoliadol ac yn sicrhau ein bod yn cyflenwi gwasanaeth gwych a diben cymdeithasol ac amgylcheddol cryf

Diben

Meysydd allweddol

Strategaeth Ddŵr i Gymru

Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru yn canolbwyntio ar sut y gellir cynyddu cadernid y system yng Nghymru, gan gyfyngu ar y costau a'r effeithiau i'r cwsmer, yr amgylchedd a busnesau.

- **Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnesau:** Nodi perthnasoedd rhwng pobl a'r amgylchedd dŵr naturiol.
- **Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli'n gwasanaethau dŵr:** Gwella sut y rheolir gwasanaethau dŵr.
- **Cyflenwi gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid:** Mae'n cwmpasu fforddiadwyedd a phrofiad cyffredinol cwsmeriaid, fel ei gilydd.
- **Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed:** Sicrhau ansawdd dŵr o safon uchel.
- **Systemau draenio a charthffosiaeth yr 21ain ganrif:** Annog datblygu systemau draenio a charthffosiaeth mwy cynaliadwy.
- **Cynorthwyo cyflenwi:** Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gorchwyl o gyflenwi'r strategaeth.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf yn ceisio galluogi rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd ragweithiol, gynaliadwy a chydgyssylltiedig a sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei gyflwyno

Mae cyflwyniadau allweddol o'r Ddeddf yn cynnwys:

- targedau statudol ar gyfer allyriadau;
- mwy o ddiogelwch i fioamrywiaeth; a
- rheolaethau newydd i leihau lefelau gwastraff.

Meysydd allweddol y Ddeddf

- Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Newid yn yr hinsawdd.
- Casglu a chael gwared â gwastraff.
- Pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn a thrwyddedu morol.
- Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, draenio tir.

Fel rhan o'r Ddeddf hon, rhwymir cwmnïau dŵr yng Nghymru gan ddyletswydd fioamrywiaeth benodol, sydd yn ei gwneud hi'n ofynnol inni wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae hyn eisoes yn rhywbeth rydym yn ei hyrwyddo ac yn gweithio'n galed i'w gefnogi.

Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyflwr adnoddau naturiol Cymru ac mae'n nodi cyfleoedd fydd yn helpu i adeiladu ecosystemau cadarn ac yn helpu Cymru i ddiwallu'i nodau lles.

Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi risgiau gyferbyn â phob un math o gynefin. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi chwe maes cyfle i liniaru yn erbyn rhai o'r risgiau hyn. Mae'r rhain yn cwmpasu seilwaith gwyrdd, coetiroedd, parthau arfordirol, gorlifdiroedd a systemau hydrolegol, priddoedd a defnyddio ucheldiroedd. Rydym yn ddiweddarach yn ystyried y pedwar nod cyfnod hir sydd gan Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, a ddyfeisiwyd i helpu i wella cyflwr adnoddau naturiol Cymru.

Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn ychwanegol, mae CNC/NRW wedi dyfeisio 'Datganiadau Ardal' ar gyfer rhanbarthau yng Nghymru, sy'n amlinellu'u nodau strategol. Mae themâu allweddol ar gyfer ein rhanbarth yng Nghanolbarth Cymru yn cynnwys:

- Gwella bioamrywiaeth gyfoethog y rhanbarth;
- Hyrwyddo'r amgylchedd yn gynaliadwy ar gyfer adloniant, iechyd, lles a'r economi;
- Rheoli tir ac amaethyddiaeth yn gynaliadwy; a
- Rheoli coedwigaeth fasnachol.

2. Y tueddiadau allweddol

Mae'n ansicr sut y bydd y 30 mlynedd nesaf yn datblygu.

Drwy ystyried beth y gallai'r tueddiadau mwyaf dylanwadol fod, gallwn asesu'r hyn sy'n cymell newidiadau, a dechrau dychmygu sut y gall y dyfodol edrych.

Yn Hafren Dyfrdwy, rydym wedi nodi chwe thueddiad allweddol.



Natur **demograffig** newidiol ein poblogaeth



Pryderon cynyddol am ddifrod i'r **amgylchedd**



Disgwyliadau ac agweddau **esblygol cwsmeriaid**



Mwy o **effeithiau a phrofiadau** newid yn yr hinsawdd



Newid **economaidd**, strwythurol a rheoliadol



Mabwysiadu datrysiadau datblygol i **ddatgarboneiddio**

Y tueddiadau allweddol



Natur demograffig newidiol ein poblogaeth

Disgwylir y bydd yna newid yng nghyfansoddiad demograffig ein cymuned leol dros y deg mlynedd ar hugain nesaf; mae hyn yn cynnwys poblogaeth gynyddol oeddrannus, niferoedd uwch o dwristiaid yn ymweld â'r ardal, a thwf cyffredinol yn y boblogaeth ledled Cymru.

Yn debygol o arwain at:

- Mwy o alw am ddŵr yfed.
- Lefelau cynyddol o fod yn agored i niwed, sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio.
- Pwysau cynyddol ar stociau tai presennol a galwadau am fwy o adeiladu tai.
- Mwy o angen am fwyd, fydd yn gosod rhagor o alw am ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth.
- Mwy o reidrwydd i gydweithredu rhwng ardaloedd, o ganlyniad i dueddiadau demograffig disgwylidig gwahanol.



Disgwyliadau ac agweddau esblygol cwsmeriaid

Mae galwadau gan gwsmeriaid yn esblygu'n fythol, gyda chwsmeriaid yn mynnu fwyfwy bod cwmnïau'n arddangos diben cymdeithasol cryf, yn darparu gwasanaeth sydd wedi'i bersonoli'n fwy, gwell digideiddio ac yn arddangos mwy o ymrwymiad amgylcheddol.

Yn debygol o arwain at ddefnyddwyr yn:

- Canolbwyntio ar wasanaethau 24/7, trannoeth neu ar-alw.
- Mwy ymwybodol o gynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol, a gweld bod hyn yn ganolog i sut y caiff sefydliadau eu hystyried.
- Llai goddefol o ddiffygion mewn gwasanaeth.
- Mwy pryderus am iechyd, lles a materion cymdeithasol.
- Yn gynyddol ymwybodol o ymagweddau sefydliad tuag at degwch a chydraddoldeb, yn enwedig o ran bod yn agored i niwed a fforddiadwyedd.



Newid economaidd, strwythurol a rheoleiddiol

Ers pandemig yr haint COVID-19, bu newid mewn disgwyliadau cymdeithasol ac economaidd ar gyfer y dyfodol. Mae'n debygol y bydd newidiadau yn y maes gwleidyddol, yn cynnwys datganoli, "Brexit" a'r symudiad i Sero Net, yn cymell amgylchedd rheoliadol sy'n newid.

Yn debygol o arwain at:

- Mwy o heriau o ran fforddiadwyedd mewn rhai sectorau neilltuol o gymdeithas.
- Newidiad mewn patrymau gwaith, gyda mwy a mwy o bobl yn cael eu hannog i fabwysiadu ymagwedd hybrid tuag at waith.
- Newidiad i economi a chymdeithas ddigidol yn parhau, gyda mwy o ddibyniaeth ar dechnolegau sydd wedi ennill eu plwyf a thwf mewn technolegau digidol newydd.
- Allgáu digidol mwy difrifol i rai sectorau o gymdeithas, oni bai bod dulliau cyfathrebu traddodiadol yn parhau i gael eu cefnogi.
- Newid safonau a pholisïau rheoliadol mewn ymateb i dirwedd wleidyddol sy'n newid.

Y tueddiadau allweddol



Pryderon cynyddol am ddifrod i'r amgylchedd

Bydd cymdeithas yn dod yn gynyddol ymwybodol o, ac yn pryderu am, effeithiau'u gweithgareddau'u hunain ac eraill ar ein hamgylchedd naturiol. Bydd yr ymwybyddiaeth gynyddol hon yn cymhell newid mewn agweddau unigolion a sefydliadau, fel ei gilydd.

Yn debygol o arwain at:

- Mwy o alw am ddŵr yfed.
- Lefelau cynyddol o fod yn agored i niwed, yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio.
- Pwysau cynyddol ar stociau tai presennol a galwadau am fwy o adeiladu tai.
- Mwy o angen am fwyd, fydd yn gosod rhagor o alw am ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth.
- Mwy o reidrwydd i gydweithredu rhwng ardaloedd, oherwydd tueddiadau demograffig disgwylidig gwahanol.



Mwy o effeithiau a phrofiadau newid yn yr hinsawdd

Bydd newid yn yr hinsawdd yn parhau i gael effaith ar ein patrymau tywydd gan greu digwyddiadau tywydd eithafol, sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd naturiol, yr economi a chymdeithas yn gyffredinol.

Yn debygol o arwain at brofiad cynyddol o:

- Hafau poethach, sychach.
- Gaeafau cynhesach, gwlypach.
- Digwyddiadau tywydd mwy eithafol, megis stormydd a thywydd poeth.
- Tymereddau dŵr yn cynhesu'n raddol.
- Dirywiad yn ansawdd dŵr crai.



Mabwysiadu datrysiadau datblygol i ddatgarboneiddio

O ystyried yr amgylchedd polisi cyfredol, a'r ymrwymiad gan lawer o fusnesau a sefydliadau i ddod yn Sero Net o fewn y 30 mlynedd nesaf, rhagwelwn dwf yn y defnydd o ddatrysiadau newydd i gefnogi'r symudiad i economi 'gwyreddach'.

Yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd o:

- Cynhyrchu trydan carbon isel /di-garbon.
- Technolegau dal a storio carbon neu geo-beiranneg graddfa fawr.
- Datgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth (e.e. trwy hydrogen, biodanwyddau, trydan).
- Cyllid gwyrdd a ffocws ar ragoriaethau 'gwyrdd'.
- Ailgoedwigo ac adfer i wella cynefinoedd naturiol.
- Ailgyrchu ac addasu at ddibenion gwahanol i leihau gwastraff.
- Caiff hyn ei gydbwysu gyda sefydliadau (megis ein sefydliad ni) yn mynd yn gynyddol ddibynadwy ar asedau sy'n heneiddio.

3. Yr heriau mwyaf

Drwy ystyried goblygiadau dichonol ein tueddiadau allweddol, mae'n bosibl nodi ymhle y gall yr heriau mwyaf yn y dyfodol, a chyfleoedd posibl, godi.

Mae asesu graddfa'r effeithiau hynny, neu yn wir gyfleoedd, yn anos.

Mae'r adran hon yn cwmpasu'r heriau mwyaf rydym yn eu hwynebu.

Bydd newid demograffig yn dylanwadu ar y **galw am ddŵr yn y dyfodol**

Bydd y cysylltiad rhwng amgylchedd iach a **newid yn yr hinsawdd yn cymell newid mewn agwedd**

Bydd newid yn yr hinsawdd yn lleihau **argaeledd dŵr ac yn gwaethygu galw brig**

Bydd brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn **arwain at fwy o ymyriadau polisi**

Bydd tywydd mwy eithafol yn **cynyddu'r perygl o lifogydd**

Bydd y buddsoddiad gofynnol yn effeithio ar filiau cwsmeriaid ac yn **effeithio ar fforddiadwyedd i rai pobl**

Bydd newid demograffig yn dylanwadu ar alw am ddŵr yn y dyfodol ledled Cymru

Er mai'r darogan yw y bydd y boblogaeth yng Nghymru yn tyfu yn y 30 mlynedd nesaf, disgwylir i lefelau barhau'n gymharol wastad yn rhanbarth Hafren Dyfrdwy. Er gwaethaf hyn, rydym yn dal i ragweld newid mewn galw am ddŵr a gymhellir gan newid cymdeithasol a mwy o alw cenedlaethol.



- **Twf yn y boblogaeth genedlaethol:** Yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd y boblogaeth genedlaethol yn cynyddu dros 100,000 erbyn 2043. Bydd hyn yn gosod pwysau ychwanegol ar y ddarpariaeth genedlaethol o ddŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff.
- **Poblogaeth sy'n heneiddio:** Yn ein rhanbarth, y darogan yw y bydd cyfran y bobl dros 65 oed yn cynyddu. Disgwylir i'r tueddiad hwn gymhell newid mewn patrymau defnydd dŵr mewn rhai ardaloedd neilltuoel, yn ogystal â chymhell lefelau uwch o fod yn agored i niwed.
- **Deiliadaeth aelwydydd:** Erbyn 2043, disgwylir y bydd nifer yr aelwydydd deiliadaeth pobl sengl yn ardal Hafren Dyfrdwy wedi cynyddu tua 9%, fydd yn cymhell cynnydd yn nifer y cartrefi a'r datblygiadau y bydd arnom angen eu cyflenwi, er gwaethaf proffil poblogaeth gymharol wastad.
- **Newid cymdeithasol:** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan uchelgais fwy hirdymor o gael o leiaf 30% o bobl yn gweithio gartref, neu wrth ymyl eu cartref. Y canlyniad dichonol yw newid mewn galw gofodol ac amseryddol ledled ein rhwydwaith.
- **Twristiaeth:** O ystyried harddwch naturiol syfrdanol ein rhanbarth, mae o wedi bod yn dynfa i driplau dydd erioed, ac mae wedi denu ymwelwyr o bob cwr o'r DU. Gyda'r cynnydd diweddar mewn gwyliau gartref, mae hwn yn dueddiad y disgwylwedd iddo barhau, gan osod galw tymhorol ychwanegol ar gyflenwadau dŵr, a all olygu y bydd yn rhaid adeiladu rhwydwaith na fydd angen cynhwysedd llawn drwy gydol y flwyddyn.

Bydd newid yn yr hinsawdd yn

lleihau argaeledd dŵr ac yn gwaethygu galw brig

Disgwylir y bydd newid yn yr hinsawdd dros y 30 mlynedd nesaf yn arwain at fwy o heriau yn ymwneud ag argaeledd dŵr, codiadau brig mwy sylweddol mewn galwadau a mwy o effeithiau ar ein hamgylchedd naturiol.

- **Newid yn yr hinsawdd:** Erbyn 2050, disgwylwn y bydd hafau yng Nghymru ar gyfartaledd yn 1.1°C yn gynhesach, gyda 15% yn llai o law*. Bydd hyn yn ymestyn hyd cyfnod yr haf i bob diben ac yn lleihau glaw tymhorol pan fo'r galw ar ei gryfaf. Bydd tywydd cynhesach hefyd yn cynyddu'r defnydd dewisol o ddŵr wrth i bobl dreulio mwy o amser yn yr awyr agored. Bydd tywydd poeth yn boethach, yn fwy mynych ac yn fwy hirfaith, gan waethygu galwadau brig am ddŵr ac yn gosod straen ychwanegol ar y system.
- **Tynnu dŵr:** Bydd lefelau dŵr is yn yr haf yn effeithio ar ansawdd dŵr ac yn lleihau faint o ddŵr y gallwn ei dynnu yn gynaliadwy, sy'n golygu y bydd yn rhaid dibynnu mwy ar gronfeydd dŵr storio. Tynnir tua 60% o'n dŵr o Afon Dyfrdwy.
- **Amaethyddiaeth:** Bydd yn rhaid i amaethwyr addasu'r hyn y maent yn ei dyfu a sut y maent yn ffermio. Bydd galw am ddŵr ar gyfer amaethyddiaeth yn cynyddu, yn bennaf drwy fod ar dda byw angen eu disychedu'n fwy ond hefyd drwy ddyfrhau cnydau. Efallai y daw afiechydon a phlâu i blanhigion yn fwy cyffredin, gan gynyddu'r defnydd o blaladdwyr a ffwngladdwyr, gyda'r perygl y bydd mwy o waddodion cemegol yn mynd i mewn i'r cylch dŵr.
- **Pawb yn gwneud ei ran:** O ystyried pwysau dichonol ar argaeledd dŵr, bydd ar aelwydydd, busnesau a chyrff cyhoeddus angen cefnogi'r gorchwyl o leihau defnydd dŵr. Bydd angen i gwmnïau dŵr gynorthwyo hyn drwy barhau â'u hymdrechion i leihau gollyngiadau.
- **Effeithiau ar fioamrywiaeth:** Bydd mwy o rywogaethau mewn perygl neu mewn perygl o gael eu disodli gan eraill sydd wedi'u haddasu'n well i oroesi. Bydd diogelu cynefinoedd ac amddiffyniadau hyblyg ar gyfer tynnu dŵr yn dod yn fwyfwy pwysig.

*Defnyddio RCP6.0 o dan sefyllfa'r 50fed canradd



Bydd tywydd mwy eithafol yn cynyddu'r perygl o stormydd a llifogydd

Disgwylir y bydd newid yn yr hinsawdd, mwy o drefoli a datblygiadau tai yn arwain at fwy o berygl o lifogydd (o bob math) a stormydd, fydd, heb ragor o ymyriadau, yn cynyddu'r perygl o garthffosydd yn gorlifo a difrod i'r amgylchedd naturiol.



- **Mwy o law:** Er y rhagwelir y bydd hafau'n sychach, erbyn 2050 y darogan yw y bydd gaeafau'n profi tua 5% o gynnydd mewn glaw yng Nghymru*, gyda digwyddiadau glaw mawr mwy eithafol (megis patrymau stormydd sy'n symud yn araf) yn cynyddu'r perygl o afonydd yn gorlifo'u glannau neu o lifogydd oherwydd bod y tir yn soeglyd.
- **Datblygiad tai a threfol:** Bydd y cynnydd mewn arwynebeddau anhydraidd sy'n deillio o gynnydd mewn datblygiad tai a threfol yn gwaethgu'r broblem, gan gynyddu dŵr ffo ar y wyneb ac yn gostwng y cynhwysedd ymdreiddio i'r ddaear.
- **Poblogaethau anghysbell:** Gan ranbarth Hafren y mae'r dwysedd poblogaeth isaf o'r holl gwmanïau dŵr a dŵr gwastraff rheoledig yn y Deyrnas Unedig. O ystyried topograffi'r rhanbarth, gall achosion cynyddol o ddigwyddiadau tywydd eithafol, megis stormydd, greu heriau wrth ddarparu cyflenwad dibynadwy i'n cwsmeriaid mwyaf anghysbell.
- **Datrysiadau ac arloesi:** O ystyried effeithiau difrodus digwyddiadau llifogydd a stormydd, a'r ffaith bod ganddynt achosion a sbardunau lu (e.e. trefoli, newid yn yr hinsawdd), bydd hi'n ofynnol cael dull amlasiantaethol o weithio (gweithio â phartneriaid ar ansawdd afonydd, er enghraifft) i gyfyngu ar yr effeithiau dichonol.

*Defnyddio RCP6.0 o dan sefyllfa'r 50fed canradd

Bydd y cysylltiad rhwng amgylchedd iach a

newid yn yr hinsawdd yn cymell newid mewn agweddau

Mae ein rhanbarth yn gartref i lefelau cyfoethog o fioamrywiaeth, gyda 60% o dir o fewn yr ardal yn cael ei ddiogelu naill ai fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu fel Ardal Cadwraeth Arbennig.

- **Cynnydd o ran newid yn yr hinsawdd:** Wrth inni nesáu at 2050, disgwyliwn y bydd pryder am lefel y cynnydd tuag at nodau hinsawdd yn parhau i dyfu wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddod yn fwy amlwg ac wrth i ymdrechion byd-eang fod mewn perygl o fod yn annigonol.
- **Disgwyliadau cwsmeriaid:** Bydd y pryder hwn yn arwain pobl i fod yn fwy ymwybodol o effeithiau'u dewisiadau o ffordd o fyw ac yn cymell dymuniad i ddefnyddio llai, i leihau gwastraff ac i gynyddu ailgylchu. Bydd ein cwsmeriaid yn disgwyl i ni helpu i hysbysu a chynorthwyo'u hymdrechion i ddefnyddio llai o ddŵr.
- **Llygryddion amgylcheddol:** Wrth i bob math o lygredd amgylcheddol fynd yn llai derbyniol yn gymdeithasol, mae'n debygol y bydd yna fwy o graffu ar y deunyddiau rydym yn eu dychwelyd i'r amgylchedd fel rhan o'n gweithrediadau arferol neu a gaiff eu caniatáu ar adegau pan fo straen ar y rhwydwaith (hynny yw, carthffosydd yn gorlifo).
- **Bioamrywiaeth:** Bydd diogelu ac adfer cynefinoedd yn gynyddol bwysig wrth i werth a rôl natur gael eu cydnabod yn fwy cyffredinol ac wrth i golli cynefinoedd sy'n fyd-eang arwyddocaol ysbrydoli gweithredu. Mae gennym dird daliad mawr, gyda'n stad Llyn Efyrynwy, er enghraifft, yn cwmpasu oddeutu 10,000 hectar, y mae llawer ohono eisoes yn cael ei ddefnyddio i gynnal bioamrywiaeth



Bydd brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o ymyriadau polisi

Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd rôl weithgar mewn cynorthwyo unigolion a busnesau i gyfrannu tuag at darged Sero Net y wlad erbyn 2050 a mabwysiadu technolegau gwyrddach.

- **Nodau cymdeithasol:** Rhagwelwn y bydd y Llywodraeth yn parhau i gymryd rôl fawr mewn gweithio ochr yn ochr â busnesau i ddilyn nodau cymdeithasol mewn perthynas â datgarboneiddio a goresgyn rhwystrau sy'n llesteirio newid ar ran cwsmeriaid, busnesau neu'r gymdeithas yn fwy cyffredinol. Bydd arnom angen bod yn barod i addasu i unrhyw newid yn y dyfodol yn y cyfeiriad gwleidyddol sy'n tra-arglwyddiaethu.
- **Datgarboneiddio:** Mae'n debygol y bydd ymyriadau polisi dichonol yn canolbwyntio ar gyflymu ymdrechion i ddatgarboneiddio a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd, drwy addasu a lliniaru fel ei gilydd. Fel seilwaith cenedlaethol hanfodol dynodedig, bydd yna bwyslais neilltuoel arnom i wella cadernid ein hasedau ac i gryfhau'n mesurau a'n cynlluniau wrth gefn.
- **Targedau:** Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Llwybr Sero Net, gyda thargedau lleihau allyriadau net dros dro yn cael eu hamlinellu. Erbyn 2030, mae Llywodraeth

Cymru wedi pennu targed dros dro o 63% o ostyngiad mewn allyriadau nwy tŷ gwydr. Fel Grŵp (mae Hafren Dyfrdwy yn rhan o Grŵp Hafren Trent CCC), rydym wedi'n hymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 ar ein hallyriadau carbon Cwmpas 1 (asedau y meddir arnynt) a Chwmpas 2 (ynni a ddefnyddir mewn prosesau cwmni).

- **Fframweithiau:** Rhagwelwn hefyd ragor o newidiadau i ddeddfau, rheoliadau a safonau yn gysylltiedig â'r amgylchedd, fydd yn mynnu ein bod yn mabwysiadu safonau llymach a mwy o dryloywder yn ymwneud â chasglu ac adrodd am ddata.
- **Polisi cyllidol ac ariannol:** Gellir defnyddio trethi carbon a chymhelliannau eraill a seilir ar y farchnad i gyfyngu ar y defnydd o danwydd ffosil ac i leihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o gynhyrchion a gwasanaethau. Tra gallai hyn gynyddu cost ein gweithrediadau beunyddiol a'n datrysiadau cyfalaf, gallai hefyd roi cyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o ddatrysiadau sydd wedi'u seilio ar natur neu i gymryd rhan mewn marchnadoedd newydd, megis hydrogen neu amonia gwyrdd.



Bydd y buddsoddiad angenrheidiol yn

effeithio ar filiau cwsmeriaid ac yn effeithio ar fforddiadwyedd i rai pobl

Er bod gennym ar hyn o bryd y biliau isaf yng Nghymru (a Lloegr), bydd y buddsoddiad sy'n ofynnol i ymladd yn erbyn effeithiau newid yn yr hinsawdd, lefelau presennol o gyni economaidd ac ansicrwydd economaidd am y dyfodol yn golygu heriau o ran fforddiadwyedd.



- **Fforddiadwyedd:** Er ein bod yn parhau i weithio'n galed i ddileu tlodi dŵr drwy gynnig lefelau hael o gymorth i'r rheiny sydd fwyaf anghenus (gyda hyd at 90% o'u bil yn cael ei gyllido), mae un o bob wyth o bobl yng Nghymru yn canfod eu bil dŵr yn amhosibl ei ffordd. Mae'n rhaid inni, felly, barhau ag ymdrechion sydd wedi'u targedu'n fwy i fynd i'r afael â heriau fforddiadwyedd drwy weithio'n gydweithredol, drwy barhau i ddarparu cymorth ariannol i gwsmeriaid sydd ei angen, a thrwy gynorthwyo cymunedau ehangach drwy brosiectau ac elusennau lleol.
- **Ansicrwydd economaidd:** O ystyried effaith macro-economaidd sylweddol pandemig COVID-19 a newidiadau sylweddol eraill, mae'n debygol y bydd yr economi'n wynebu pwysau sylweddol. Ni chaiff effeithiau dirwasgiadau a chyfnodau o dwf economaidd y dyfodol eu rhannu'n gyfartal ledled y genedl, gydag effeithiau'n cael eu lledaenu'n anwastad ledled ein cwsmeriaid cartref a dibreswyl, fel ei gilydd.
- **Costau byw:** Gall amgylchiadau economaidd a'r heriau sy'n wynebu cymdeithas newid yn gyflym. Wrth i'r wlad orchfygu'r pandemig, mae hi ar hyn o bryd â'i hwyneb ar un o'r argyfyngau mwyaf heriol ers degawdau, gyda chwyddiant uchel ac ansicrwydd economaidd a geo-wleidyddol cynyddol. Mae hyn yn creu pwysau sylweddol ar gostau byw, ac mae'n golygu'r perygl o roi mwy o gwsmeriaid mewn sefyllfa lle maent mewn trafferthion ariannol. Rydym eisoes yn ystyried sut y gallwn roi cymorth ychwanegol i gwsmeriaid mwyaf anghenus, a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth rhagweithiol ac addasadwy i'n cwsmeriaid.
- **Cynlluniau'r dyfodol:** Bydd cynllunio ar gyfer lefelau uwch o gadernid a chyrraedd targedau hirdymor, fel carbon sero net, llai o ollyngiadau neu leihau effeithiau gorlifoedd o garthffosydd, yn golygu buddsoddiadau sylweddol yn ein hasedau ffisegol a newidiadau i sut rydym yn gweithredu. Wrth gynnig buddsoddiadau newydd, mae arnom angen bod yn ymwybodol o'r effaith ar filiau cwsmeriaid, yn enwedig i'r rheiny sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn ariannol.

4. Ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Yma, amlinellwn ein meysydd blaenoriaeth, y teimlwn sy'n hanfodol i roi sylw i'r heriau a'r cyfleoedd sydd yn ein hwynebu. Nid yw'r rhain yn drwyadl, ond maent yn rhoi syniad o'r gweithredoedd rydym yn eu hystyried.

Mae rhai o'r rhain o fewn ein gallu, mae eraill yn gofyn am gydweithredu diwydiannol, buddsoddiad, neu newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio.

Cynyddu'n galluedd i ganfod a chyflenwi dŵr i sicrhau **cyflenwadau dŵr yn y dyfodol**

Helpu'n cwsmeriaid i fod yn fwy ymwybodol o ddŵr i **sicrhau y defnyddir dŵr yn ddoethach**

Cyflenwi **gwasanaeth fforddiadwy, o safon uchel a chynorthwyo'n cwsmeriaid mwyaf agored i niwed**

Gwella cadernid ein rhwydwaith i **leihau'r perygl o lifogydd a llygredd**

Mabwysiadu arferion mwy cynaliadwy i **ddiogelu a gwella'n hamgylchedd**

Gweithio â'n cymunedau i wneud **gwahaniaeth cymdeithasol cadarnhaol**

Buddsoddi yn ein diwylliant sy'n perfformio'n dda i **gynnal gweithle diogel, cynhwysol a theg**

Rydym wedi mapio'n blaenoriaethau ar gyfer y

dyfodol o ran y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Uchafbwyntiau'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol gyferbyn â phob un piler.


- **Llewyrchus:** Credwn y bydd ein hymagwedd tuag at ddalgylchoedd, yr amgylchedd a chydbwysio fforddiadwyedd yn helpu i gynnal llewyrch y dyfodol.
- **Cadarn:** Bydd ymdrechion i ategu cadernid ein rhwydwaith a bioamrywiaeth y rhanbarth drwy ddatrysiadau sydd wedi'u seilio ar natur yn cynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol.
- **Iachach:** Cynnal ein safonau iechyd a diogelwch a gwella ansawdd dŵr drwy newid pibelli plwm i gymell Cymru iachach.
- **Mwy cyfartal:** Bydd gweithio i ddileu tlodi dŵr, a'n hymrwymiaidau i amrywiaeth a chynhwysiant, yn helpu i gau anghydraddoldeb ledled ein cymunedau.
- **Cymunedau cydlynus:** Gwella hygyrchedd ein safleoedd i bob cymuned, ac mae ein rhaglenni allgymorth cymunedol oll yn helpu i gefnogi cymuned fwy gydlynus.
- **Diwylliant ac iaith ffyniannus:** Bydd ein hymrwymiaidau i'r iaith Gymraeg a'n hallgymorth cymunedol i hyd yn oed ein cwsmeriaid mwyaf anghysbell yn helpu i sicrhau ein bod yn diogelu'r diwylliant cyfoethog yn ein rhanbarth yn y modd gorau.
- **Cyfrifol yn fyd-eang:** Bydd ein cyfraniad tuag at wella'r fioamrywiaeth gyfoethog yn ein rhanbarth, yn ogystal â lleihau'n heffeithiau carbon ac amgylcheddol, yn helpu i gynnal Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

	Llewyrchus	Cadarn	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus	Cyfrifol yn Fyd-eang
Gwarantu cyflenwadau dŵr y dyfodol	✓	✓	✓				✓
Sicrhau y defnyddir dŵr yn ddoeth		✓	✓		✓		✓
Cyflenwi gwasanaeth fforddiadwy sydd o ansawdd uchel	✓			✓	✓	✓	
Lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Diogelu a gwella'n hamgylchedd	✓	✓	✓		✓	✓	✓
Gwneud gwahaniaeth cymdeithasol cadarnhaol	✓	✓		✓	✓	✓	
Cynnal gweithle diogel, cynhwysol a theg	✓	✓	✓	✓			

Datblygwyd ein blaenoriaethau ag amcanion y Rheoli

Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy mewn golwg

Y pedwar amcan yn y Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy



Ecosystemau

Mae sicrhau bod gennym adnoddau naturiol addasadwy, cadarn ac wedi'u diogelu yn hanfodol fel ein bod yn gallu wynebu'r argyfyngau hinsawdd a natur yn y modd gorau posibl. Mae gennym ffocws amgylcheddol cryf ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn anelu at leihau'r defnydd o adnoddau na ellir eu hadnewyddu, cynnal bioamrywiaeth drwy gydweithredu â phartneriaid ac ymdrechu i fod yn batrwm enghreifftiol mewn rheoli tir a dŵr.

Cymdeithasol

Mae bodloni'r nod hwn yn dibynnu ar gael ecosystemau cadarn, ac mae iechyd a lles y genedl yn cyfrannu at ein gallu i fanteisio ar gyfleoedd economaidd economi atgynhyrchiol. Bydd ein cynlluniau i wella ansawdd dŵr, a gwella bioamrywiaeth ein rhanbarth a chadernid ein rhwydwaith, yn helpu i greu lleoedd iach i bobl ffynnu.

Economaidd

Nod Cymru yw peidio â defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau bydeang ac i'r economi weithredu o fewn gallu atgynhyrchiol ecosystemau'r Ddaear. Byddwn yn cefnogi'r nod hwn drwy'n cynlluniau yn ymwneud â dalgylchoedd, cydbwyso fforddiadwyedd cwsmeriaid a buddsoddi, a lleihau'n hallyriadau carbon (a rhai ein cadwyni cyflenwi) ein hunain.

Ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad cyntaf ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), dyfeisiwyd pedwar amcan cyfnod hir i sicrhau y caiff adnoddau naturiol eu rheoli'n gynaliadwy. Mae ein blaenoriaethau'n anelu at helpu i'w gyflenwi.

Credwn fod gweithio'n arloesol ac yn gydweithredol yn allweddol i gyflenwi'r canlyniadau gorau, yn enwedig o ystyried yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Cynyddu'n gallu i ganfod a chyflenwi dŵr i **warantu cyflenwadau dŵr y dyfodol**

Mae dŵr yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol - prin rydym hyd yn oed yn meddwl amdano. Agorwn y tap a derbyniwn ddŵr yfed glân, diogel, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Bydd llai o law yn yr haf yn mynnu canolbwyntio mwy ar gadernid yn erbyn sychder.



Ein cynlluniau i warantu cyflenwadau dŵr y dyfodol

Cyflenwi dŵr yfed o ansawdd uchel

- **Dalgylchoedd:** Gweithio â rhanddeiliaid i weithredu newidiadau i arferion gwaith er mwyn gwella ansawdd ffynonellau dŵr yfed crai, yn ogystal â gweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd.
- **Technoleg newydd:** Buddsoddi mewn trin dŵr a'r rhwydwaith dosbarthu i sicrhau bod dŵr yn ddiogel i'w yfed a'i fod yn bodloni disgwyliadau'n cwsmeriaid yn gyson o ran blas, lliw ac arogl.
- **Newid pibelli plwm:** Cael gwared â phibwaith plwm ledled ein rhwydwaith i atal plwm rhag mynd i mewn i'r cyflenwad dŵr a chyfrannu tuag at Gymru Ddi-blwm.

Bodloni gofynion dŵr yfed ein cwsmeriaid

- **Tynnu dŵr:** Gwneud y gorau o dynnu dŵr ar safleoedd cyfredol, ail-gomisiynu hen ddyfrdyllau, lle y bo'n gynaliadwy ac yn ymarferol, yn ogystal ag ailystyried lefelau gwasanaeth Cyfeiriad Cyffredinol Dyfrdwy a chyfranddaliadau rhwng echdynyddion.
- **Storio:** Gwella cynhwysedd storio dŵr crai drwy adfer cynhwysedd cronfeydd dŵr presennol.
- **Trin:** Uwchraddio'n gweithfeydd trin i gynyddu cynhwysedd a'r cyflymder y gellir ychwanegu dŵr at y system.

Lleihau gollyngiadau o'r hanner

- **Canfod:** Gwella canfod gollyngiadau drwy osod mwy o gofnodyddion ledled y rhwydwaith i ddarparu arwydd cynnar o ollyngiadau.
- **Gwella'r rhwydwaith:** Mabwysiadu datrysiadau arloesol i reoli pwysedd, sy'n lleihau straen ar y rhwydwaith, a buddsoddi mewn cynlluniau adnewyddu prif bibelli dŵr a dargedwyd.
- **Atgyweirio:** Lliflinio'n prosesau i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i drwsio pob gollyngiad gweladwy a threialu ffyrdd arloesol o atgyweirio pibelli o'r tu mewn.

Gwella dibynadwyedd asedau i leihau colli gwasanaeth a'i effeithiau

- **Cynnal a chadw a chynhwysedd:** Sicrhau bod gan ein hasedau drefnau cynnal a chadw priodol sy'n addas i'w hamgylchiadau unigryw ac ehangu'r defnydd o gynnal a chadw rhagweithiol i leihau'r risg o ddiffygion. Byddwn yn mynd ati i fuddsoddi mewn cynhwysedd dyblyg ar gyfer asedau hanfodol.
- **Dylunio asedau:** Ymchwilio i opsiynau i dosglwyddo i ddylunio asedau modiwlaid, mwy safonedig i symleiddio cynnal a chadw ac i leihau costau, yn ogystal ag addasu'n hasedau i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd (e.e. llifogydd, erydu neu ymsuddiant).

Mabwysiadu ymagwedd dan arweiniad data i gael y perfformiad gorau

- **Monitro:** Cyflwyno synwryddion rhwydwaith a mesuryddion fesul cam, lle y bo'n ymarferol a buddiol, i ddarparu adborth system amser real, hysbysu llunio penderfyniadau a monitro perfformiad. Gall y defnydd o efeilliaid/efelychiadau digidol helpu i nodi meysydd gwendid.
- **Darogan:** Gwella'n galluedd modelu a darogan i allu rhagweld patrymau galw'n well ac i'n caniatáu i gynllunio (buddsoddi) â mwy o sicrwydd.

Cefnogi ymdrechion i leihau prinder dŵr.

- **Cydweithredu:** Gweithio â Dŵr Cymru, Water Resources West a chwmnïau dŵr cyfagos yn Lloegr i wella cadernid y naill a'r llall ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau.
- **Rhannu asedau:** Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i ddod â mwy o fuddion i Gymru, megis drwy gynyddu cadernid lleol, gwella'r economi lleol a buddion eraill i les ac i'r amgylchedd.
- **Galw:** Byddwn yn cydweithredu ledled y sector, ac yn cynorthwyo cwsmeriaid, busnesau a phartneriaid i ddod yn fwy ymwybodol o effeithiau'u galw a'u hymddygiadau pan ddaw hi'n fater o ddefnyddio dŵr.



Gwella ansawdd dŵr crai yn ei ffynhonnell

Gwyddom mor bwysig ydyw i'n cwsmeriaid ein bod yn cyflenwi dŵr yfed diogel, glân, ac felly rydym eisoes wedi buddsoddi mewn nifer o gynlluniau i wella ansawdd dŵr, i reoli'n dalgylchoedd yn well ac i leihau afliwio.



Ein dŵr: Rydym yn cael dros 60% o'n dŵr crai o Afon Dyfrdwy. O ystyried ein daearyddiaeth, mae ein rhanbarth yn gartref i ddŵr a chanddo lefel uchel o Fanganîs*, a all arwain at fwy o risg o afliwio.

Rheoli dalgylchoedd: O ystyried ein dibyniaeth ar ddŵr o Afon Dyfrdwy, rydym wedi canolbwyntio ar brosesau rheoli dalgylchoedd yn yr ardal hon. I wella cadernid ac ansawdd dŵr crai yn ei ffynhonnell, gweithiwn mewn partneriaeth ag United Utilities ac Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru. Mae hyn wedi cynorthwyo i:

- Lleihau lefelau cemegolion a phlaldwyr sy'n bresennol yn Afon Dyfrdwy drwy weithio â thirfeddianwyr lleol a defnyddio 'chemcatchers', sydd wedi cymell lefel is o gostau trin dŵr, gan fod angen llai o gemegolion a thriniaethau i drin y dŵr ffynhonnell;
- Cynyddu lefelau bioamrywiaeth yn ac o amgylch dalgylch Afon Dyfrdwy; ac
- Ymestyn cynlluniau rheoli dalgylchoedd i ardaloedd eraill ein rhanbarth, megis yn Llyn Efyrrwy.

Afliwio: Er mwyn gwella ansawdd dŵr, parhawn i ddefnyddio ymagwedd ffynhonnell i dap dŵr o leihau'r risg o aflwiad yn mynd i mewn i'n rhwydwaith, a chynllun fflysio wedi'i dargedu i gael gwared ag unrhyw waddodion diberygl sydd yno eisoes. Mae hyn wedi arwain at 26% o ostyngiad yn nifer y cysylltiadau ynglŷn ag ansawdd dŵr rhwng 2019 a 2021.

* Mae manganîs yn tarddu o fwynau a gwaddodion yn y ddaear. Er ei fod yn naturiol ac yn gyffredin, pan fo'n bresennol mewn cyflenwad dŵr, gall beri afliwio.



Cefnogi'r ymgyrch tuag at Gymru Ddi-blwm

Amcangyfrifir y caiff tua 25% o gartrefi yng Nghymru eu cyflenwi â dŵr drwy bibelli plwm. Rydym wedi'n hymrwymo i gynorthwyo ymdrechion i newid pibelli plwm yn ein rhanbarth.



Cefndir i blwm: Hyd nes iddo gael ei wahardd yn 1969, defnyddiwyd plwm yn gyffredinol i gysylltu prif bibelli dŵr yn y ffordd fawr ag eiddo. Mae'r dŵr a gyflenwn yn ddi-blwm yn ei hanfod ond gellir codi mymryn o blwm o'r bibell wasanaethu neu blymwaith yn y cartref. Gall lefelau uchel o blwm fod yn risg i iechyd, ac felly rydym yn trin ein dŵr i sicrhau bod yna cyn lleied o ymdoddiad o blwm ag y bo modd, ac rydym yn monitro lefelau plwm ledled ein hardal.

Cymru Ddi-blwm: Rydym yn falch o gymryd rhan yn uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru o Gymru Ddi-blwm. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a pherchnogion cartrefi preifat, gwnaethom ragori ar ein targed blwyddyn gyntaf o newid pibelli plwm, bedair gwaith trosodd. Byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd o ehangu'n cyrhaeddiad ledled ein rhanbarth cyfan.

Gweithgareddau'r dyfodol: Byddwn yn parhau i geisio ffyrdd newydd o leihau'r gost a'r cymhlethdod o newid pibelli cyfathrebu plwm cwmni dŵr a phibelli cyflenwi plwm y mae cwsmeriaid yn berchen arnynt i ddarparu datrysiad parhaol ar gyfer plwm, a byddwn yn cyfrannu tuag at yr ymgyrch tuag at Gymru Ddi-blwm. Mae mentrau rydym yn eu hystyried yn cynnwys:

- Gwella rhaglenni cyfathrebu, a chynghori cwsmeriaid i egluro'r risg i iechyd o fod plwm mewn dŵr;
- Gweithredu rhaglenni samplu dŵr mewn ardaloedd lle mae problemau, i gadarnhau'r risg oddi wrth blwm sy'n wynebu cwsmeriaid;
- Cynyddu nifer y newid mwy 'manteisgar' o bibelli cyfathrebu plwm yn ystod ein gweithgareddau monitro gollyngiadau, adnewyddu prif bibelli dŵr a gweithgareddau eraill ar y rhwydwaith;
- Cynnal arolwg o bibelli gwasanaethu i ddarparu gwybodaeth gyflawn am leoliad pibelli plwm fel y gallwn ddeall y risg ar lefel cwmni fel y gallwn gynllunio ar gyfer yr hirdymor; a
- Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu i ddatblygu dulliau arloesol, sy'n costio llai i newid pibelli plwm.

Helpu'n cwsmeriaid i fod yn fwy ymwybodol o ddŵr i **sicrhau y defnyddir dŵr yn ddoeth**

Bydd ein cyflenwadau dŵr o dan bwysau gan newid demograffig, newid yn yr hinsawdd a chyfyngiadau amgylcheddol ar dynnu dŵr.

Felly, mae'n hanfodol bod ein cwsmeriaid yn deall gwerth dŵr ac ein bod ninnau'n eu helpu yn eu hymdrechion i ddefnyddio llai o ddŵr i ddiogelu ffynonellau dŵr ar gyfer y dyfodol ac i gadw biliau'n isel.



Ein cynlluniau i sicrhau y defnyddir dŵr yn ddoeth

Gwella ansawdd a defnyddioldeb data

- **Bilio:** Newid ein llwyfan bilio, mewn pryd, i gynnwys mwy o ddata ac i alluogi tariffau, cynnyrch a gwasanaethau mwy hyblyg. Bydd hyn yn caniatáu inni wobrwyo cwsmeriaid sy'n defnyddio dŵr yn gyfrifol.
- **Dadansoddeg data:** Diweddarau'n galluedd dadansoddi data i ddarparu dirnadaeth fwy ymarferol weithredol i ni ac i'n cwsmeriaid.

Rhoi gwybodaeth ac offer i gwsmeriaid wneud penderfyniadau ar sail mwy o wybodaeth

- **Addysg:** Addysgu defnyddwyr am bwysigrwydd dŵr a sut i ddeall ei ddefnydd yn well, megis drwy'n harddangosfeydd noddedig yn Xplore! Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth yn Wrecsam.
- **Cyngor penodedig:** Cynnig dirnadaeth sydd wedi'i phersonoli'n well i wella'n negeseua ac i annog newid mewn ymddygiad.
- **Grymuso cwsmeriaid:** Grymuso cwsmeriaid i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am fuddsoddi mewn mesurau arbed dŵr ar gyfer cartrefi a gerddi.

Lobio dros newid ar ran ein cwsmeriaid

- **Datblygiadau newydd:** Ymgychu er mwyn i bob datblygiad preswyl newydd gyflawni brasman o isafswm effeithlonrwydd dŵr o 110 litr y person y dydd.
- **Arbed dŵr:** Lobio rheolyddion i wella effeithlonrwydd dŵr cynnyrch ac i gyflwyno safonau gofynnol llymach, yn ogystal â gweithio â gweithgynhyrchwyr ac adwerthwyr i wella labelu arbed dŵr.

Helpu'n cwsmeriaid i leihau defnydd

- **Cynnyrch a gwasanaethau:** Ehangu cyrhaeddiad ein gwiriadau a'n harchwiliadau dŵr cartrefi, a thyfu'r ystod o gynhyrchion am ddim ac y talwyd amdanynt rydym yn eu cynnig i gynorthwyo i arbed dŵr ac effeithlonrwydd dŵr mewn cartrefi a'u gerddi.
- **Offer deallus:** Cynnig offer dŵr deallus ar ddisgownt sy'n hyrwyddo defnyddio dŵr yn effeithlon.
- **Partneriaid busnes:** Ffurio partneriaeth â chwsmeriaid busnes a'u cadwyni cyflenwi i ganfod cyfleoedd i ostwng defnydd dŵr ac i hyrwyddo arferion gorau.
- **Gollyngiadau:** Cydnabyddwn hefyd ein rôl ein hunain o ran lleihau gollyngiadau, ac fel a ddisgrifiwyd yn gynharach, mae hwn yn faes allweddol lle rydym yn parhau i fynd ati i'w wella.

Cynyddu ailgylchu dŵr i fynd â lle defnydd dŵr sylfaenol

- **Archwilio:** Archwilio busnesau sy'n defnyddio llawer o ddŵr yn ein rhanbarth a ffurfio partneriaethau i osod systemau dŵr llwyd.
- **Cynaeafu:** Ôl-osod systemau cynaeafu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr llwyd ar gyfer ein cwsmeriaid cartrefi.
- **Storio sychder:** Archwilio cyfleoedd storio llifogydd-sychder deuol drwy'r hyn rydym yn storio ac yn dargyfeirio dŵr llifogydd dichonol a'i ddefnyddio mewn gwaith trin dŵr i lawr yr afon.
- **Ailgylchu:** Ymchwilio i opsiynau i ddefnyddio dŵr gwastraff wedi'i drin fel porthiant uniongyrchol i mewn i waith trin dŵr (ailgylchu dolen gaeedig).



Treialu mesuryddion deallus i asesu'r effaith ar ein cwsmeriaid yng nghefn gwlad

Rhwng hyn a 2050, bwriadwn barhau i dreialu'r defnydd o fesuryddion deallus. Mae ein natur wledig yn rhoi cyfleoedd unigryw i gyd-greu datrysiadau digidol a all ddod â budd nid dim ond i'r sector dŵr.



Defnydd cwsmeriaid: Gall adeiladu mwy o seilwaith ddarparu digon o ddŵr i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gall cwsmeriaid hefyd gael rôl drwy gyfaddasu'u defnydd, yn enwedig ar adegau brig. Gallai hyn leihau faint o seilwaith y mae arnom angen ei adeiladu a'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â thrin a chludo dŵr.

Gwell dirnadaeth: Mae mesuryddion deallus yn darparu gwell dirnadaeth i gwsmeriaid ynglŷn â faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio, fydd yn creu biliau cywirach ac yn helpu i sicrhau bod pawb yn talu'i gyfran deg.

Seilwaith digidol: Mae cysylltedd digidol yn ofynnol i gynnal y defnydd o fesuryddion deallus. O ystyried topograffi gwledig ein rhanbarth, bydd llwyddiant cyflwyno mentrau digidol fesul cam, megis y "Rhwydwaith Gwledig ar y Cyd" a mentrau digideiddio eraill yng Nghymru yn hanfodol.

Patrymau galw: Bydd hefyd yn ein helpu fel cyflenwr i ddeall gwahanol batrymau galw ledled ein rhwydwaith, pa mor sensitif yw galw i dywydd cynhesach, a sut y gellir targedu'n cynghorion a'n gwasanaethau orau at gwsmeriaid fyddai'n elwa fwyaf.

Cyngor am arbed dŵr: Rydym eisoes yn cynnig cyngor am arbed dŵr, cynnyrch am ddim a chymorthdaledig, ynghyd â'n gwiriadau arbed dŵr cartref mwy rhagweithiol wedi'u targedu - mae arnom eisiau gwneud mwy i helpu'n cwsmeriaid i arbed dŵr ac arian.

Cyflenwi gwasanaeth fforddiadwy, o ansawdd uchel a chynorthwyo'n cwsmeriaid mwyaf agored i niwed

Mae ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, ac mae ein timau'n gweithio'n ddiflino i ddarparu profiad gwych iddynt.

Cydnabyddwn fod ar wahanol gwsmeriaid angen gwahanol bethau gennym, a bod yr anghenion hyn yn newid dros amser.

Drwy gyflwyno technolegau newydd ac esblygu'r ffordd rydym yn defnyddio data, credwn y gallwn gynnig gwasanaeth mwy personol, cyfleus a hyblyg, y cyfan am bris sy'n parhau i fod yn fforddiadwy.



Ein cynlluniau i gyflenwi gwasanaeth fforddiadwy, o ansawdd uchel

Cynnig cymorth i'n holl gwsmeriaid pan fo arnynt ei angen

- **Ymwybyddiaeth cwsmeriaid:** Cynyddu ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r cymorth y gallwn ei gynnig i'r rheiny sydd mewn cyni ariannol neu sy'n agored i niwed.
- **Darparu cymorth priodol:** Gwella'n hadnabyddiaeth o gwsmeriaid sy'n profi cyni neu sy'n agored i niwed hirdymor a thros dro, fel ei gilydd. Byddwn yn parhau i gynnig cymorth penodol i gwsmeriaid mewn tldi dŵr neu gyny ariannol, drwy dariffau arbennig, cynlluniau talu gohiriedig, neu grantiau.
- **Cwsmeriaid sy'n agored i niwed:** Sicrhau bod pob cwsmer sy'n agored i niwed wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth ac y deallir eu hanghenion. Darparu cymorth un i un penodedig i gwsmeriaid sy'n agored i niwed, neu'r rheiny ag anghenion penodol, yn ogystal â chynorthwyo'r rheiny ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn ystod argyfyngau. Rydym hefyd yn archwilio sut y gallwn gysoni rhagor ar ein cymorth â'r manifesto 'bod yn agored i niwed' sydd gan Gyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru.

Dileu tldi dŵr yn ein rhanbarth

- **Technoleg a data:** Trosoli datblygiadau mewn technoleg, roboteg a deallusrwydd artiffisial i gymell effeithlonrwydd prosesau ac awtomatiaeth.
- **Gwella'n rhwydwaith:** Lleihau colledion y rhwydwaith a gwireddu'r buddion o gyflenwi prosiectau cyfalaf yn effeithlon.
- **Cydweithredu:** Cydweithredu ledled sectorau ac ehangach i rannu asedau, adnoddau neu wasanaethau.
- **Bylchau a pheidio â thalu:** Lleihau hyd yr eithaf ar beidio â thalu biliau ymysg y rheiny sy'n gallu talu.
- **Costau:** Parhau i ganolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth yn effeithlon.

Deall mwy am ein cwsmeriaid a'u hanghenion

- **Ennyn cyfraniad cwsmeriaid:** Parhau i ymgysylltu ag is-grŵp deholedig o gwsmeriaid ynglŷn â materion o ddiddordeb neu o berthnasedd iddynt.
- **Yr Iaith Gymraeg:** Bydd anrhydeddu'n hymrwymiaidau i'r iaith Gymraeg yn ein cynorthwyo i fagu gwell perthnasoedd â'r rheiny yn ein cymunedau sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.
- **Data:** Gwella cyflawnrwydd ac ansawdd data allweddol a chyfuno data o wahanol ffynonellau i ddarparu dirnadaeth ychwanegol, ac i greu gwerth i gwsmeriaid.
- **Cyfyngau cymdeithasol:** Defnyddio data cyfyngau cymdeithasol a dadansoddeg rhyngweithio i ddeall ymddygiad a blaenoriaethau cwsmeriaid yn well.
- **Cadernid seiber:** Gwella'n cadernid seiber i ddiogelu data cwsmeriaid rhag ymosodiadau maleisus.

Cyflenwi profiad gwych i gwsmeriaid, gan ein rhoi yn chwartzel uchaf y diwydiant

- **Technoleg:** Defnyddio technoleg a gwell data i ddarparu profiad cwmpasog mwy personol a chyson, a chreu golwg ar fanylion cwsmeriaid ar gyfer ffordd fwy cyfannol o reoli cyfrifon.
- **Ymddygiad cwsmeriaid:** Integreiddio gwyddor ymddygiadol i ddyluniad ein gwasanaeth i wella ansawdd rhyngweithio gan gwsmeriaid ac i gynyddu lefelau hunanwasanaeth fel y gall cwsmeriaid ddewis sut a pha bryd i rhyngweithio â ni.
- **Datrys cwestiynau cwsmeriaid:** Gwella datrysiad cysylltiad y tro cyntaf drwy symleiddio prosesau, gwella hyfforddiant a grymuso staff.
- **Cyfathrebu:** Cynyddu cydgysylltu a gweithredu rhagweithiol mewn cyfathrebu, gan osgoi'r angen i gwsmeriaid gysylltu â ni.
- **Partneriaethau:** Ffurio partneriaethau â sefydliadau gorau yn y dosbarth i rannu dysg ac arferion gorau.



Dileu tlodi dŵr yn ein rhanbarth

Er ein bod yn cynnig y biliau isaf yng Nghymru a Lloegr, mae lleiafrif sylweddol o'n cwsmeriaid yn dal i'w chael hi'n anodd talu'u biliau. Mae ymchwil gan Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru yn awgrymu bod 1 o bob 8 o bobl yng Nghymru'n canfod eu bil yn amhosibl ei dalu.



Tlodi dŵr: Gan weithio ag eraill yn ein sector, mae arnom eisiau dileu 'tlodi dŵr' erbyn 2030 – sy'n golygu na fydd yr un aelwyd yn wynebu bil dŵr sy'n fwy na 5% o'u hincwm gwario. Ni fydd hyn yn hawdd, a bydd yn mynnu ein bod yn dal i ganolbwyntio ar gostau, a helpu'n cwsmeriaid i leihau defnydd, yn ogystal â darparu cymorth ariannol.

Cynlluniau presennol: Mae ein cynlluniau presennol yn cynnwys ein Cynllun Here2Help, sef ein tariff cymdeithasol. Rydym hefyd yn darparu cymorth o dan y Cynllun WaterSure, sy'n wirfoddol yng Nghymru. Yn ychwanegol, cynigiwn wahanol ddulliau o wneud y bil yn fwy hylaw, yn cynnwys seibiannau talu, i gynorthwyo cwsmeriaid mewn angen byrdymor.

Lefelau cymorth cyfredol: Ein huchelgais yw darparu cymorth effeithiol. Mae ein tariff cymdeithasol yn cynnig hyd at 90% o'r bil. Cydnabyddwn fod arnom angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth y gallwn ei ddarparu. Rydym yn ystyried go iawn sut yw'r ffordd orau y gallwn ymestyn y cymorth a gynigir, a datblygu mesurau newydd i gyrraedd mwy o aelwydydd mewn anhawster.

Gwasanaeth: Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnal lefel wych o wasanaeth i gwsmeriaid, rydym yn buddsoddi yn ein taith i gwsmeriaid ac yn gweithio'n agos â Chyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru i ganfod ffyrdd o wella rhagor ar ein gwasanaeth presennol i gwsmeriaid.

Ennyn cyfraniad cwsmeriaid: Credwn fod ymestyn ein cyrhaeddiad i'r gymuned yn ffordd allweddol o rannu'r gwahanol lefelau o gymorth sydd ar gael i bobl. Mae rhai o'n rhaglenni allgymorth yn cynnwys:

- Magu cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol yn ein rhanbarth, yn ogystal â Chymdeithasau Tai Lleol, i ganfod ffyrdd o ddarparu cymorth ychwanegol i'n cwsmeriaid;
- Sefydlu tîm Gofal a Chymorth a leolir yn Wrecsam, sy'n dal gafael ar ffocws lleol ac sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i anghenion unigol cwsmeriaid, yn ariannol a heb fod yn ariannol, fel ei gilydd; ac
- Ymrwymiad i gynorthwyo'n cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, drwy wella lefelau'r cymorth i gwsmeriaid Cymraeg a ddarperir drwy lansio'n Cynllun Iaith Gymraeg ein hunain.

Gwella cadernid ein rhwydwaith i leihau'r perygl o lifogydd a llygredd

Mae gan garthffosydd rôl hanfodol i gael gwared â ddŵr gwastraff o eiddo, ynghyd â ddŵr glaw o doeau, strydoedd ac arwynebau eraill nad oes modd eu treiddio.

Disgwylir y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at aeafau gwlypach a glaw mwy eithafol, ac mae hynny, ynghyd â mwy o gartrefi, yn golygu y bydd yn rhaid i'n carthffosydd ymdopi â chyfaint brig uwch.

Os yw faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r garthffos yn uwch na'i chynhwysedd, neu os oes rhwystr sy'n cyfyngu ar lif, mae yna berygl wedyn o lifogydd, ac y gallai carthion gwanhaedig gael eu gollwng yn ôl i'r amgylchedd.



Ein cynlluniau i leihau'r perygl o lifogydd a llygredd

Lleihau cyfaint y dŵr sy'n mynd i'r rhwydwaith

- **Dalgylchoedd:** Creu cymunedau sy'n gadarnach yn erbyn llifogydd drwy fentrau graddfa dalgylch gan ddefnyddio seilwaith glas-gwyrdd.
- **Draenio trefol cynaliadwy ("SUDs"):** Ôl-osod mwy o SUDs i reoli cyfaint dŵr ffo ac i arafu cyfradd y llif sy'n mynd i mewn i garthffosydd penodol.
- **Cadw dŵr:** Annog y defnydd o well deunyddiau cadw dŵr i ddal dŵr.
- **Cynaeafu:** Hyrwyddo cynaeafu dŵr glaw a systemau dŵr llwyd sy'n casglu, storio ac aildddefnyddio dŵr.

Cynyddu'n gallu i ymdopi â llifoedd a chyfeintiau uwch

- **Cynhwysedd:** Gwella cynhwysedd y rhwydwaith drwy gynyddu maint seilwaith carthffosydd.
- **Triniaeth:** Buddsoddi mewn mwy o gynhwysedd lle na ellir gostwng cyfaint yn ddigonol ac mae trwyddedau'n eu caniatáu. Mae sicrhau bod ein system bresennol yn gadarn yn wyneb heriau cyfredol a heriau'r dyfodol yn allweddol, yn ogystal â chanfod ffyrdd o dreialu datrysiadau mwy arloesol.
- **Gorlifoedd:** Gwahanu carthion a dŵr wyneb mewn ardaloedd sy'n dueddol o gael gorlifoedd. Byddwn yn gweithio gyda ac yn cynorthwyo cymunedau yr effeithir arnynt.
- **Partneriaethau:** Gweithio â chynghorau, cynllunwyr a datblygwyr i sicrhau bod datblygiadau newydd yn bodloni safonau rhwydwaith dŵr gwastraff gofynnol.

Lleihau rhwystrau yn y rhwydwaith

- **Lobio:** Lobio am well labelu ar gynhyrchion y gellir eu fflysio a gwahardd eitemau na ellir eu dirywio.
- **Ymwybyddiaeth:** Cynyddu ymwybyddiaeth o beth na ddylid ei olchi neu'i fflysio i mewn i'r rhwydwaith.
- **Atal:** Buddsoddi mwy mewn trefnau cynnal a newid rhagweithiol a dargedir ar ardaloedd hanfodol neu sy'n dueddol o gael rhwystrau.
- **Technolegau gwasgaru:** Ymchwilio i effeithlonrwydd cynnyrch a thechnegau gwasgaru braster, olew a saim (e.e. bio-ychwanegu).

Gwella'n galluedd casglu a modelu data

- **Synwryddion:** Sicrhau bod holl rannau hanfodol ein rhwydwaith yn cael eu gorchuddio gan synwryddion i ddarparu gwelededd amser real ar gyflwr y rhwydwaith.
- **Data:** Ymgorffori mwy o ddata a newidynnau i wella'n modelu rhagfynegi.
- **Modelu:** Gwella'n galluedd efelychu a darogan i atal rhwystrau a digwyddiadau llifogydd a llygredd cyn iddynt ddigwydd.
- **Deallusrwydd artiffisial:** Defnyddio synwryddion a deallusrwydd artiffisial i wella monitro asedau ac i ddarogan problemau ag iechyd a pherfformiad cyn iddynt ddigwydd.
- **Gwyddor Dinasyddion:** Gwella defnyddio a chasglu gwybodaeth am y byd naturiol, wedi'i goladu gan y cyhoedd ac mewn partneriaeth â gwyddonwyr.

Ceisio lleihau toriadau nas cynlluniwyd neu eu heffeithiau drwy well dibynadwyedd asedau

- **Cynnal a chadw:** Sicrhau bod gan ein hasedau drefnau cynnal a chadw priodol sy'n addas i'w hamgylchiadau unigryw ac ehangu'r defnydd o drefnau cynnal a chadw rhagweithiol a rhagnodol i leihau'r perygl o ddiffygion mewn asedau, yn ogystal â gwella argaeledd darnau wrth gefn hanfodol i ganiatáu adferiad cyflymach ar ôl methiant.
- **Dylunio asedau:** Ymchwilio i opsiynau i drosglwyddo i ddylunio asedau mwy safonedig a modiwlaidd i symleiddio cynnal a chadw ac i leihau costau.
- **Cynhwysedd:** Buddsoddi mewn cynhwysedd dyblyg ar gyfer asedau hanfodol lle y byddai diffygiant yn arwain at golli gwasanaeth neu lle y byddai yna risg o ddigwyddiad ansawdd dŵr.
- **Troseddau seiber:** Sicrhau y diogelir ein systemau hanfodol rhag bygythiadau seiber ac ymosodiadau maleisus.



Buddsoddi mewn, a gwella, ein rhwydwaith gwastraff yn ein cymunedau mwyaf gwledig

Mae ein busnes gwastraff yn darparu gwasanaethau i 20,000 o eiddo yn ardal Powys, sy'n cwmpasu ychydig yn llai na 500 cilometr o garthffosydd. Rydym wedi parhau i fuddsoddi ac i gynnal ein rhwydwaith yn yr ardal hon.



Canolbwyntio ar asedau: Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar yr asedau dŵr gwastraff a ddefnyddir yn ein gweithrediad i wella'u cadernid, a chynnal ymchwiliadau manwl pan adroddir am broblemau. Yn 2020/21, gwnaethom gyflawni cyfradd gydymffurfio 100% sydd ymysg y gorau yn y diwydiant yn ein gweithfeydd trin dŵr.

Lleihau carbon: Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o leihau'n hôl troed carbon yn ein busnes gwastraff. Mae un o'n safleoedd (Llys Rhysnant) oddi ar y grid. Byddwn yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o reoli effeithiau amgylcheddol ein busnes.

Topograffi: Mae gan ein rhanbarth gyfran uchel o gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig. Mae gan gwsmeriaid yn yr ardaloedd hyn dueddiad uwch i beidio â bod ar y rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus. Byddwn yn parhau i weithio â Llywodraeth Cymru ar unrhyw newidiadau mewn polisi a all effeithio ar sut y caiff y cwsmeriaid hyn eu cyflenwi orau.

Arloesi: Golyga'n topograffi gwledig ein bod yn dueddol o gael cwmpadau tir, a all beri difrod i'n seilwaith carthffosiaeth. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried dichonoldeb plannu coed helyg i wella sefydlogrwydd y ddaear, ymagwedd a all hefyd gael buddion lliniaru peryglon llifogydd mwy cyffredinol, gan y gall plannu coed leihau cyfraddau dŵr ffo oddi ar arwynebau, yn ogystal, a gwella rhagor ar fioamrywiaeth ein rhanbarth.



Archwilio'r defnydd o rwydweithiau deallus i wella'n cadernid yn y dyfodol

Drwy'r 30 mlynedd nesaf, mae'n rhaid inni nid yn unig barhau i fuddsoddi yn ein hasedau ffisegol ond hefyd ddefnyddio technolegau newydd i sicrhau y gallwn weithredu'r asedau hynny'n effeithlon ac yn ddiogel, yn enwedig ar adegau o straen.

Rhwydweithiau deallus: Mae gan rwydweithiau deallus y gallu i gynorthwyo i reoli a monitro'r system cyflenwi dŵr o bell. Bydd datblygiadau mewn technoleg yn cynorthwyo i fonitro pwysedd dŵr, tymheredd dŵr, gollyngiadau ac argaeledd yn ein safleoedd mwyaf hanfodol. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried ychwanegu mwy o ddatrysiadau rheoli rhwydwaith deallus ledled ein rhanbarth, gan ddechrau â chylched Wrecsam. Rhagwelir y bydd y monitro integredig hwn o'n system yn cymell cyflenwad mwy cyson a chadarn.

Synwryddion: Mae gennym eisoes synwryddion a monitorau ledled ein rhwydwaith gwastraff sy'n darparu data i'n helpu i ddeall perfformiad rhwydwaith ac ymhle y bydd problemau'n codi. Dros y 30 mlynedd nesaf, byddwn yn mynd ati i barhau i ymestyn hyd ein rhwydwaith a nifer yr asedau sydd wedi gwreiddio synwryddion i ddarparu persbectif drwy'r rhwydwaith drwy ddefnyddio technolegau deallus.

Buddsoddiadau a dargedwyd: Bydd hyn yn caniatáu inni wneud buddsoddiadau wedi'u targedu'n well mewn elfennau o'r rhwydwaith a all fod yn perfformio'n siomedig neu roi sylw i heriau, megis carthffosydd yn gorlifo, lle nad yw data dibynadwy wedi bod ar gael yn flaenorol.



Mabwysiadu arferion mwy cynaliadwy i ddiogelu a gwella'r amgylchedd

Mae newid yn yr hinsawdd a defnyddio adnoddau yn ddau o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw, ac os na weithredir, bydd yn fygythiad i'r amgylchedd, ac i'n gallu ninnau i barhau i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol y mae ein cwsmeriaid yn dibynnu arno.

Cydnabyddwn fod yna gyfrifoldeb arnom i wneud ein rhan i leihau'n heffaith uniongyrchol ac i hyrwyddo datrysiadau sy'n parchu ac yn gwella'r amgylchedd naturiol.



Ein cynlluniau i ddiogelu a gwella'n hamgylchedd

Lleihau'n hôl troed carbon

- **Optimeiddio:** Optimeiddio'n harferion gwaith i leihau'n hôl troed carbon, ac addasu'r triongl carbon o leihau, symud a chael gwared â'n hallyriadau.
- **Arloesi:** Treialu technolegau newydd ac arloesi i leihau'n dibyniaeth ar wrthbwyso.
- **Partneriaid:** Gweithio â'n cadwyn gyflenwi i'w cynorthwyo i leihau'u hallyriadau'u hunain (Cwmpas 3).

Anfon gwastraff sero o'n gweithrediadau i safle tirlenwi

- **Diwylliant:** Gwreiddio diwylliant gwastraff sero a leihau'r defnydd o ddeunyddiau defnydd untro neu na ellir eu hailgylchu.
- **Osgoi tirlenwi:** Addasu at ddibenion eraill wastraff priffyrdd a gloddiwyd neu sgrinio i osgoi tirlenwi.
- **Ailddefnyddio ac ailgylchu:** Ailgylchu neu greu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch diwedd eu hoes.
- **Dethol cyflenwyr:** Gosod gofynion sy'n gysylltiedig â gwastraff ym meini prawf dethol cyflenwyr.

Lleihau'r defnydd o gemegau yn ein prosesau

- **Ansawdd dŵr crai:** Gwella ansawdd dŵr crai i leihau lefel y driniaeth gemegol sy'n ofynnol.
- **Triniaeth ddi-gemegol:** Mabwysiadu triniaeth ddi-gemegol ledled ein prosesau trin dŵr a dŵr gwastraff, megis gwell ffordd o gael gwared â ffosffad biolegol.
- **Newid pibelli plwm:** Newid pibwaith plwm i liniaru'r angen am driniaeth gemegol ychwanegol.

Cynyddu gwaredu micro-halogyddion

- **Cwsmeriaid:** Gweithio â chwsmeriaid i leihau lefelau micro-halogyddion (micro-blastigau, pethau anorganig, gwaddodion a deunyddiau fferyllol) mewn carthion.
- **Arloesi:** Buddsoddi mewn technoleg newydd i ddatblygu gwell datrysiadau i gynyddu gwaredu micro-halogyddion o elifiant gwastraff terfynol.
- **Triniaeth:** Gwella ansawdd y dŵr rydym yn ei ddychwelyd i'r amgylchedd drwy fuddsoddi mewn gwelliannau i weithfeydd trin dŵr.

Lleihau effaith gorlifoedd stormydd

- **Monitro:** Gosod monitorau mewn Gorlif Carthffosydd Cyfun ("CSO") i ddarparu data amser real ac i atal arllwysyadau diangen.
- **Buddsoddi:** Canolbwyntio buddsoddiad ar Orlif Carthffosydd Cyfun sy'n dueddol o orlifo, gan sicrhau nad oedd Gorlif Carthffosydd Cyfun yn peri i gorff dŵr fethu â chyflawni statws ecolegol da.
- **Gwella:** Ôl-ddodi hidlenni neu ddulliau unioni eraill i Orlif Carthffosydd Cyfun unigol i leihau effaith ar yr adegau y gallent orlifo.
- **Rhwystrau:** Lleihau achosion o rwystrau.

Cynorthwyo ymdrechion i wella ansawdd cyffredinol dŵr

- **Monitro:** Cynyddu monitro amser real o ansawdd dŵr i fyny ac i lawr yr afon o'n gweithfeydd.
- **Dalgylchoedd:** Gweithio â busnesau i leihau lefel biswail, gwaddodion cemegol a llygryddion sy'n mynd i mewn i'r system ddŵr.
- **Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur:** Defnyddio datrysiadau naturiol i wella ansawdd dŵr lleol, megis gwlyptiroedd adeiledig neu blannu wrth lannau afonydd.
- **Partneriaethau:** Gweithio â'r EA (trawsffiniol), Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i gynorthwyo gwelliannau arloesol mewn dalgylchoedd i ecosystemau.

Lleihau cyfaint y dŵr rydym yn ei dynnu

- **Gollyngiadau:** Lleihau faint o ddŵr a gollir drwy ollyngiadau a rhwygiadau yn y rhwydwaith.
- **Defnydd:** Lleihau defnydd gan gwsmeriaid i ostwng cyfanswm y dŵr sydd angen ei dynnu a'i drin.
- **Dŵr a ddefnyddiwyd mewn triniaeth:** Buddsoddi mewn lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir yn ein prosesau trin, nad oes modd ei adfer.
- **Cyfaint:** Cyfyngu ar dynnu dŵr mewn safleoedd diymgeledd er mwyn sicrhau bod llifoedd afonydd a lefel dŵr daear yn cynnal ecoleg a chadernid naturiol.



Bod yn arweinydd amgylcheddol o ran rheoli tir a dŵr

Ein nod hirdymor yw bod Llyn Efyrynwy'n enghraifft batrymol o reoli tir a dŵr. Mae'r safle, sy'n cynnwys tua 10,000 hectar o dir, yn gartref i rywogaethau prin brodorol a chynefinoedd mawndir hanfodol.



Buddsoddwr yng Nghymru: Mae ein cynlluniau ar gyfer Llyn Efyrynwy yn cynrychioli'r rhaglen amgylcheddol statudol fwyaf yn ein rhan ni o Gymru ers dros 20 mlynedd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur i Gymru yn 2021, ac mae pryderon am effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol yn sylweddol. Bydd ein cynlluniau ar gyfer Efyrynwy dros y 30 mlynedd nesaf yn helpu Hafren Dyfrdwy i fod â'u rhan mewn ymladd y ddau.

Ansawdd dŵr afonydd: Rydym yn buddsoddi tua £2.5 miliwn yn yr AMP hwn (yr adolygiad prisiau bob 5 mlynedd hyd at 2025) yn unig ar wella ansawdd dŵr afonydd tua 46 cilometr o afonydd yn ein rhanbarth a lleoliadau o amgylch Llyn Efyrynwy. Golyga hyn wella ansawdd dŵr o'i ffynhonnell.

Adfer mawndir: Rydym ar hyn o bryd yn adfer 450 hectar o fawndir ar stad Llyn Efyrynwy mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ("RSPB") Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae adfer mawndir yn bwysig iawn yn ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan fod mawndir yn effeithiol wrth storio carbon a gwella bioamrywiaeth.

Safle ymwelwyr: Llyn Efyrynwy yw'n prif safle ymwelwyr eisoes, sy'n denu tua 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Rydym yn gweithio i wella profiad ymwelwyr drwy wella'i hygyrchedd a'r ystod o adnoddau a gynigir.

Coedwigaeth: Mae'r stad yn gartref i thua 2,000 hectar o goetir masnachol. Rydym yn archwilio opsiynau ailblannu i wneud y mwyaf o'r goedwigaeth hon i helpu i ymladd yn erbyn yr argyfyngau natur a hinsawdd, gan hefyd wella'r profiad i ymwelwyr. Mae opsiynau a ystyrir yn cynnwys gwella cwpas coetir llydanddail, yn ogystal â chynlluniau i wella dal carbon, bioamrywiaeth a rheoli dalgylchoedd.



Lleihau'n hôl troed carbon drwy leihau, ailosod a chael gwared

Mae'r sector dŵr yn gyfunol yn cyfrannu tuag 1% o allyriadau carbon y Deyrnas Unedig, ac felly rydym yn neilltuol o ymwybodol o'r allyriadau sy'n codi o'n prosesau trin, a maint a ffynhonnell yr ynni a ddefnyddiwn.



Lleihau'n hôl troed carbon: I gynorthwyo i leihau'n hôl troed carbon, rydym yn ail-gloriannu pob agwedd o'n prosesau busnes ac yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys:

- 1. Lleihau'n hallyriadau uniongyrchol** o nwyon tŷ gwydr sy'n codi o'n gweithrediadau drwy optimeiddio prosesau a defnyddio technolegau newydd i leihau lefel yr ocsid nitraidd a'r methan a gynhyrchir yn ein prosesau trin dŵr gwastraff;
- 2. Disodli tanwyddau** ffosil traddodiadol a chael ffynonellau tanwydd di-garbon eraill yn eu lle, e.e., drwy newid ein trydan a'n gwresogi i ffynonellau adnewyddadwy a throsi'n fflydoedd o gerbydau i yrru ar danwyddau adnewyddadwy;
- 3. Tynnu nwyon** tŷ gwydr o'r atmosffer gan ddefnyddio'n tir, e.e., drwy adfer mawndir a gwella atafaelu pridd, a datblygu technolegau newydd i ddal a storio allyriadau; a
- 4. Gwrthbwysio** unrhyw allyriadau gweddilliol drwy greu gwrthbwysiadau'n fewnol, e.e., drwy gynhyrchu ac allforio ynni adnewyddadwy neu drwy adfer deunyddiau sy'n disodli'r defnydd o danwyddau ffosil, neu drwy brynu gwrthbwysiadau ar y farchnad agored.

Gwneud ein rhan: Cydnabyddwn bwysigrwydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol economi gwyrdd i Gymru, a chredwn y gallwn fod â rôl yn hyn, o ystyried ein harbenigedd a'n hymrwymiad i leihau'n hôl troed carbon.

Gweithio â'n cymunedau

i wneud gwahaniaeth cymdeithasol cadarnhaol

Nid yw Hafren Dyfrdwy yn gweithredu ar ei ben ei hunan yn llwyr; rydym yn rhan o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Fel sefydliad llawn pwrpas cymdeithasol, cydnabyddwn y gall ein dylanwad a'n hadnoddau helpu i fynd i'r afael â materion o bwysigrwydd lleol, a chyflenwi buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pellgyrhaeddol.



Ein cynlluniau i wneud gwahaniaeth cymdeithasol cadarnhaol

Addysgu ac ysbrydoli'n cymunedau

- **Mynediad i safleoedd:** Annog mwy o bobl i ymweld â'n safleoedd, gan gynnig ystod ehangach o weithgareddau dysgu.
- **Ysgolion:** Ehangu'n harlwy mewn ysgolion i gynnwys sgiliau ymarferol. Rydym hefyd yn gweithio tuag at ddod yn Bartner Gwerthfawr i Ysgolion (cynllun a weithredir gan Gyrfa Cymru).

Darparu sgiliau bywyd a chyfleoedd dysgu i bobl

- **Profiad gwaith:** Darparu cyfleoedd am interniaethau a phrofiad gwaith i helpu pobl leol sy'n ymadael â'r ysgol i gael profiad gwaith ac i ddatblygu'u CV.
- **Prentisiaethau:** Cynnal cynlluniau prentisiaethau i ddarparu hyfforddiant mewn swydd a chymwysterau ffurfiol i baratoi pobl ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol.

Hyrwyddo symudedd cymdeithasol a helpu cymunedau i ffynnu

- **Recriwtio:** Arferion recriwtio teg a thryloyw, sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl o bob cefndir.
- **Cynhwysiant:** Creu mwy o gyfleoedd i'r rheiny nad oes ganddynt Radd neu gymwysterau ffurfiol, drwy gael gwared â gofynion addysgol lle nad ydynt yn hanfodol, neu drwy gynnig mwy o ddysg mewn swydd.

Cynorthwyo elusennau lleol a lles cymunedol

- **Rhoddi elusennol:** Rhoddi i achosion elusennol sydd â'r nod o hybu lles ledled y rhanbarth drwy'n Cronfa Gymunedol.
- **Cymorth cymunedol:** Darparu cymorth pan fo'i angen i'n cymunedau pan fo arnynt ei angen, yn union fel y Gronfa Coronafeirws Frys y gwnaethom ei lansio i helpu'n cymunedau i ymdopi ag effeithiau COVID-19.

Cynyddu adnoddau cymunedol yn ein rhanbarth

- **Recriwtio dros Gymru:** Darparu cyfleoedd i bobl leol, megis ein cyhoeddiad yn 2021 bod 40 o rolau gweithredol yn cael eu creu ym Mhowys.
- **Adnoddau cymunedol:** Creu adnoddau cymunedol lle y gall y cyhoedd fwynhau dŵr a'r amgylchedd naturiol yn ddiogel.
- **Cadwyn gyflenwi:** Ymrwymo i gynorthwyo cyflenwyr a leolir yng Nghymru i'r graddau sy'n bosibl.
- **Cynigion Twf Rhanbarthol:** Gwneud ein rhan i gefnogi Cynigion Twf Rhanbarthol.

Gwella bioamrywiaeth ledled ein rhanbarth

- **Rheoli tir:** Newid arferion tir i gynorthwyo bywyd gwyllt (megis ein cynlluniau yn Llyn Efyrynwy).
- **Enillion net:** Ymrwymo i enillion net mewn bioamrywiaeth ledled rhaglenni cyfalaf sydd angen Arfarniad Ecoleg Rhagarweiniol (PEA).

Cynorthwyo iechyd y cyhoedd

- **Newid pibelli plwm:** Gweithio tuag at gael gwared â phibwaith plwm ledled ein rhwydwaith ac yn eiddo'n cwsmeriaid i atal plwm rhag mynd i mewn i'r cyflenwad dŵr. Rydym wedi ffurfio partneriaeth yn ddiweddar â Chyngor Bwrdeistref Wrecsam.
- **Canfod:** Canfod ac olrhain afiechyd sy'n bresennol mewn dŵr gwastraff i helpu i ganfod yn union ymhle mae brigiadau afiechydon.



Cynorthwyo'n rhanbarth drwy gronfa gymunedol i gynorthwyo prosiectau lleol

Mae ein cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu wrth graidd popeth a wnawn, a dyna pam y gwnaethom lansio Cronfa Gymunedol Hafren Dyfrdwy i gynorthwyo prosiectau lleol.



Cronfa Gymunedol: Yn 2021, gwnaethom greu cronfa gwerth £50,000 ar gyfer sefydliadau dielw yn ein rhanbarth i ariannu prosiectau sydd â'r nod o wella lles cymunedol. Mae sefydliadau'n gallu ymgeisio am rhwng £2,000 a £10,000 ar gyfer prosiectau newydd.

Mae lles cymunedol yn cwmpasu tair thema allweddol:

- **Pobl:** Prosiectau sy'n helpu pobl i fyw bywyd iachach ac i ennill sgiliau newydd;
- **Lleoedd:** Prosiectau sy'n helpu i greu gwell lleoedd i fyw a'u defnyddio; a'r
- **Amgylchedd:** Prosiectau fydd yn helpu i ofalu am ein hamgylchedd naturiol, i roi mwy o fynediad at yr amgylchedd hwnnw neu i helpu i ofalu am ddŵr.

Ymateb i COVID-19: Gan gydnabod effeithiau byrdymor yr haint Coronafeirws ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gwnaethom weithio â Sefydliad Cymunedol Cymru, Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i nodi sefydliadau sydd fwyaf angen cymorth yn ystod y pandemig. O ganlyniad, rydym wedi rhoddi £30,000 i elusennau a grwpiau cymunedol sy'n gweithio ar y rheng flaen i gynorthwyo cymunedau drwy'r argyfwng yng Nghymru.



Gweithio'n gydweithredol i gyflenwi gwell amgylchedd i bawb

Mae ein rhanbarth yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth, ond cydnabyddwn fod pob amgylchedd naturiol yn fregus. Mae gan dros 60% o'n tirddaliad ryw fath o statws ardal warchodedig, ac rydym wedi'n hymrwymyo i'w ddiogelu a'i wella.

Argyfwng Natur: Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Natur yn 2021, gyda 17% o rywogaethau'n wynebu'r bygythiad o ddifodiant yng Nghymru. Cydnabyddwn fod yr amgylchedd a'i gyfalaf naturiol yn hanfodol i gymdeithas. Mae hwn yn bwnc sydd bob amser wedi bod yn agos at ein calonnau ac at galonnau'n cwsmeriaid.

Stiwardiaeth o'r tir: Rydym wedi'n hymrwymyo i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, drwy well stiwardiaeth o'r tir rydym yn berchen arno, drwy gefnogi elusennau lleol, a thrwy archwilio ymagweddau llawer o randdeiliaid ar raddfa dalgylchoedd.

Gweithio cydweithredol: Credwn y bydd gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid yng Nghymru yn caniatáu inni wneud ein rhan o ran y ffordd orau o wella a diogelu'r amgylchedd naturiol cyfoethog lle rydym yn gweithredu. Mae rhai enghreifftiau o'n gweithio cydweithredol cyfredol yn cynnwys:

- Uno lluoedd ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru i wella dros 60 hectar o gynefinoedd creaduriaid di-asgwrn cefn a phlanhigion yn chwareli Mwynglawdd a Marford;
- Ym Mhowys, gwnaethom ffurfio partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Sir Drefaldwyn ynglŷn â'u prosiect 'Pathways for Pearls' i greu tirwedd sy'n gyfuriog o fywyd gwylt ac sydd wedi'i cysylltu'n dda rhwng Y Trallwng, Cyfronydd a Guilsfield. Bydd hyn o fudd neilltuol i beillyddion a'r glöyn byw brith perlog anghyffredin; ac
- Ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn ein hardal gyflenwi i ganfod cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd i gael y buddion mwyaf i ecosystemau lleol.



Buddsoddi yn ein diwylliant uchel ei berfformiad i **gynnal gweithle diogel, cynhwysol a theg**

Fel cyflogwr cyfrifol, mae arnom eisiau gofalu am ein pobl, boed hynny'n golygu eu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol. Mae'r cyfan yn bwysig i sicrhau bod gennym weithlu dedwydd, medrus ac sydd â diddordeb, sydd wedi'u cyfarparu i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel yn ddiogel i'n cwsmeriaid a'u bod yn mwynhau'u gwaith.



Ein cynlluniau i gynnal gweithle diogel, cynhwysol a theg

Cynnal ein perfformiad diogelwch sydd ymysg y gorau yn y diwydiant

- **Iechyd a diogelwch:** Paratoi'n timau â'r sgiliau angenrheidiol a'r cyfarpar i wneud eu gwaith yn ddiogel.
- **Partneriaid:** Sicrhau bod ein cadwyn gwerth yn bodloni'n gofynion, ein bod yn rhannu gwersi a ddysgwyd a'n bod yn cydweithio i gyflawni ymarfer gorau.
- **Arloesi:** Trosoli technoleg a data newydd i gael dirnadaeth i ddiogelwch i gymell gwelliannau.

Gofalu am iechyd meddwl a lles unigolion

- **Hyfforddiant:** Ehangu'r ddarpariaeth o raglenni hyfforddiant ar iechyd meddwl i wella ymwybyddiaeth ac i hyrwyddo lles.
- **Rhaglen Cymorth i Weithwyr ("EAP"):** Gwella'n Rhaglen Cymorth i Weithwyr i gynnig cymorth, gwybodaeth a chynghorion i weithwyr a'u teuluoedd.
- **Uwchraddio'n safleoedd:** Uwchraddio'n safleoedd i wella sut mae ein pobl yn teimlo yn y gwaith ac am eu gweithle.

Adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

- **Recriwtio:** Gwella'n harferion recriwtio ac amrywiaeth ymgeiswyr ar restrau byr.
- **Allgymorth:** Tyfu'n rhaglenni allgymorth i sicrhau bod pobl ifanc yn fwy tebygol o glywed am y cyfleoedd y gallwn eu cynnig.
- **Delfrydau ymddwyn:** Dod yn ddelfrydau ymddwyn gweithredol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Creu amgylchedd gwaith cynhwysol

- **Polisiau:** Sicrhau bod ein polisiau'n adlewyrchu'r gymdeithas lle rydym yn byw yn well ac yn cynorthwyo'r ffordd newidiol rydym yn gweithio.
- **Hyfforddiant:** Sicrhau bod pob gweithiwr wedi'i hyfforddi mewn amrywiaeth a chynhwysiant, a sicrhau bod ein harweinwyr yn arwain drwy esiampl.
- **Grwpiau cynghori gweithwyr:** Ehangu'n grwpiau cynghori gweithwyr i godi ymwybyddiaeth, i addysgu'n gweithlu ac i weithio â chyrff allanol i ddileu camwahaniaethu.

Creu'r gweithlu mwyaf medrus yn y diwydiant

- **Cyfleusterau hyfforddi:** Buddsoddi mewn hyfforddiant i ddatblygu gweithlu medrus sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- **Technoleg newydd:** Datblygu technolegau dysgu arloesol, megis realiti estynedig a realiti rhithwir, i efelychu gwahanol amgylcheddau, gan alluogi pobl i ymarfer yn ddiogel.

Gwobrwyo perfformiad gwych ein timau

- **Gwobr:** Sicrhau bod ein fframwaith gwobrwyo yn parhau i ddenu, i gymell ac i ddal gafael ar bobl a ysbrydoler gan ein gwerthoedd ac sydd yn byw y gwerthoedd.
- **Perfformiad:** Cydnabod perfformiad gwych drwy fentrau megis y cynllun Ein Pobl Ddisglair a'n digwyddiadau Gwobrau Aruthrol.
- **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:** Darparu cyfleoedd i weithwyr gynllunio ar gyfer y dyfodol drwy'n cynlluniau pensiwn neu Sharesave.

Meithrin a datblygu doniau yn ein sefydliad

- **Hyrwyddo mewnol:** Amcanu at lenwi mwy o swyddi gwag drwy hyrwyddiadau mewnol, yn hytrach nag yn allanol.
- **Cynllunio olyniaeth:** Ehangu'n gweithgareddau cynllunio i ddarparu ymagwedd fwy systematig drwy'r busnes i adeiladu'n hysgol doniau.
- **Mynediad at ddysg:** Gwella mynediad ein gweithwyr at yr addysg a'r canllawiau y mae arnynt eu hangen i lywio drwy lwybrau gyrfa eglur lle maent yn dyheu i ddatblygu.



Cofleidio amrywiaeth a chreu gweithlu sy'n gwir adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethau

Fel cyflogwr cyfrifol a sefydliad cymdeithasol llawn pwrpas, cymerwn ein rhwymedigaethau ynglŷn â chynhwysiant ac amrywiaeth o ddifri'. Rydym wedi'n hymrwymo i greu amgylchedd gwaith teg i'n holl staff lle mae gan bawb y cyfle i lwyddo, ac i amrywiaethu'n gweithlu i adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well.



Ymrwymiad i'r iaith Gymraeg: Mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant a hunaniaeth ein rhanbarth. Darparwn ddosbarthiadau iaith i weithwyr, ac rydym yn gweithio â chymunedau a sefydliadau lleol i wella'n cynllun iaith Gymraeg i sicrhau bod gan bob cwsmer fynediad at yr un lefel o wasanaeth.

Grwpiau cynghori: Er mwyn ein helpu i lunio'n polisiau ac i ddysgu o'r cymunedau yr effeithir fwyaf arnynt gan y materion hyn, rydym wedi creu pedwar grŵp cynghori a arweinir gan weithwyr, sy'n cwmpasu ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol (LGBTQ+), anabledd, a merched mewn Gweithrediadau a phynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) ledled y Grŵp. Mae'r rhain yn helpu i godi ymwybyddiaeth, i addysgu'n gweithlu, ac i weithio â chyrff allanol i'n helpu i greu'r polisiau a'r ymyriadau i ddileu camwahaniaethu bwriadol ac anfwriadol.

Mentora: Mae gennym hefyd gynllun mentora o chwith i grwpiau lle mae cydweithwyr o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn cael eu paru â'n tîm Gweithredol i rannu mewnwelediadau ac i gynnig syniadau ar gyfer newid cadarnhaol.

Cynhwysiant: Yn 2021, rhoddodd ein gweithwyr sgôr inni o 9.1 allan o 10. Ein sgôr ymgysylltu cyffredinol oedd 8.7, sydd yn ein rhoi yn y 5% uchaf o gyfleustodau yn fyd-eang - fel Grŵp, roeddem yn 6ed yn y FTSE100 am Gydraddoldeb yn y mynegai Cyfrifoldeb100 (a'r mwyaf cyfrifol yn gyffredinol).

Diolch am ddarllen ein Datganiad ar Gyfeiriad Strategol.

Diolchwn i bawb sydd wedi adborthi ar ein hymgyngoriad ynglŷn â'r Datganiad ar Gyfeiriad Strategol. Rydym wedi ystyried yr holl atebion a dderbyniwyd ac rydym wedi diwygio'r ddogfen hon i adlewyrchu'r rheiny a ychwanegodd eglurder neu a wellodd ein dealltwriaeth. Ochr yn ochr â'r broses ymgynghori ffurfiol, gwnaethom hefyd ddarn o ymchwil yn gofyn i gwsmeriaid am eu barn ar yr heriau fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol. Mae hyn (ochr yn ochr â'r ddealltwriaeth a gawsom gan ein cwsmeriaid dros y 5 mlynedd diwethaf drwy'n hymchwil parhaus a'n cynllun PR19) yn rhoi'r gred inni fod ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn cydgordio'n gryf â'n cwsmeriaid, a'n rhanddeiliaid mwy cyffredinol, a'u bod yn cefnogi ac yn dymuno bod â'u rhan yng nghyfeiriad y dyfodol rydym yn ei gymryd.

Dogfennau Hafren Dyfrdwy efallai yr hoffech:

Mae Hafren Dyfrdwy yn cynhyrchu amrywiaeth o ddogfennau rheoliadol ac addysgiadol, sy'n darparu mwy o fanylion am agweddau penodol o'n busnes:

- Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol sy'n darparu trosolwg ar ein perfformiad strategol, gweithredol ac ariannol.
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol sy'n disgrifio sut rydym wedi cyflenwi gyferbyn â'n mesurau rheoliadol ac ar gyfer ein cwsmeriaid.
- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer PR19 sy'n amlinellu'n cynlluniau hirdymor ar gyfer sicrhau argaeledd dŵr. Gellir canfod y dogfennau hyn a llawer eraill ar ein gwefan [hdcymru.co.uk](https://www.hdcymru.co.uk)

Dogfennau Hafren Trent CCC efallai yr hoffech:

Mae Hafren Dyfrdwy yn rhan o Grŵp Hafren Trent CCC. Mae rhai dogfennau'r Grŵp efallai yr hoffech yn cynnwys:

- Adroddiad Cynaliadwyedd sy'n egluro ein fframwaith cynaliadwyedd a sut y bwriadwn gyflenwi'n hymrwymadau ESG.
- Adroddiad Ymaddasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd sy'n archwilio'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a sut rydym yn datblygu cadernid hinsawdd.

Gellir canfod y dogfennau hyn a llawer mwy ar ein gwefan [severntrent.com](https://www.severntrent.com)

**RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP**



severn dee